RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 22/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 21/03/2024

# Polisïau Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a Dyfodol Ôl-bandemig: Astudiaeth Ymchwil Aml-ddull

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-83577-813-5

Polisïau Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a Dyfodol Ôl-bandemig: Astudiaeth Ymchwil Aml-ddull

Awdur(on): Tom Bajjada, Maya Richardson, Merryn Tully a Kerry KilBride / Miller Research (UK) Ltd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bajjada, T.; Richardson, M.; Tully, M; KilBride, K.; (2024). *Bolisïau Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a Dyfodol Ôl-bandemig: Astudiaeth Ymchwil Aml-ddull*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad ymchwil cymdeithasol y llywodraeth rhif 22/2024
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/polisiau-blynyddoedd-cynnar-yng-nghymru-dyfodol-ar-ol-y-pandemig-astudiaeth-ymchwil-dulliau-cymysg

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Mina Gedikoglu a Launa Anderson
Yr Is-Adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

**Cynnwys**

Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru .......... 6
Sail Resymegol yr Ymchwil .......... 6
Strwythur yr Adroddiad .......... 7
Trosolwg o'r dull .......... 9
Gweithredu Cam 1 .......... 9
Gweithredu Cam 2 .......... 10
Ystyriaethau methodolegol .......... 13
Cyfrannu at y llenyddiaeth .......... 17
Effaith COVID-19 ar blant a theuluoedd .......... 18
Llesiant ac iechyd meddwl .......... 18
Sgiliau Cymdeithasol a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu .......... 18
Datblygiad corfforol .......... 19
Effaith y pandemig yng Nghymru .......... 20
Effaith gwasanaethau a darfwyd / dibyniaeth ar leoliadau gofal plant .......... 21
Enghreifftiau o arferion da yn ystod y pandemig .......... 21
Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu .......... 25
Datblygiad Plant a Datblygiad Cyfannol .......... 28
Iechyd meddwl, llesiant a chydnerthedd plant .......... 29
Magu plant, iechyd meddwl rhieni a dysgu gartref .......... 31
Gweithio amlasiantaeth ac ymyrraeth gynnar .......... 32
Dechrau'n Deg .......... 36
Teuluoedd yn Gyntaf .......... 38
Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar .......... 40
Rhaglen Plant Iach Cymru .......... 43
Magu plant. Rhowch amser iddo .......... 46
Siarad Gyda Fi: Cynllun gweithredu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu .......... 48
Polisïau Llywodraeth Cymru ac iddynt y nod o liniaru'r niwed sy'n codi o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod .......... 52
System Anghenion Dysgu Ychwanegol .......... 53
Cwricwlwm i Gymru .......... 56
Argymhellion cyffredinol .......... 61
Argymhellion ar gyfer rhaglenni penodol .......... 64
Atodiad A – Polisïau / rhaglenni allweddol Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a gynhwysir yn yr astudiaeth hon .......... 68
Atodiad B – Canllaw pwnc Cam 1 gydag academyddion .......... 76
Atodiad C – Rhestr o sefydliadau a gynrhychiolir yn y cyfweliadau ag academyddion / ymchwilwyr yng Ngham 1 .......... 88
Atodiad D – Canllaw pwnc grŵp ffocws ymarferwyr .......... 89
Atodiad E – Cwestiynau arolwg ymarferwyr .......... 96

## Tabl Ffigurau

Ffigur 2.1: Ymatebion i'r arolwg i'r cwestiwn 'Beth yw prif rôl eich swydd?' .......................... 12
Ffigur 5.1: Y graddau mae ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno bod ar ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar angen hyfforddiant penodol i ymdrin â materion lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig. ................................................ 27
Ffigur 6.1: Pa mor gyfarwydd oedd ymarferwyr gyda pholisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar Cymru ........................................................................................ 35
Ffigur 6.2 I ba raddau mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn ei ffurf bresennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig? ............ 41
Ffigur 6.3: I ba raddau mae Magu plant. Rhowch amser iddo yn ei ffurf bresennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig? .................................................... 47
Ffigur 6.4: I ba raddau mae Siarad Gyda Fi: cynllun gweithredu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig? ............... 49
Ffigur 6.5 I ba raddau mae dulliau polisi Llywodraeth Cymru ac iddynt y nod o liniaru'r niwed sy'n codi o drawma plentyndod yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig? ........................................................................................................ 52

## Rhestr Tablau

Tabl 2.1: Nifer o Academyddion fu'n ymwneud â Cham 1 .................................................... 10
Tabl 2.2: Nifer o Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar fu'n ymwneud â Cham 2 ....................... 12

## Geirfa

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ACEs | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Adverse Childhood Experiences) |
| ADY (ALN) | Anghenion Dysgu Ychwanegol (Additional Learning Needs) |
| Atebolrwydd ar sail Canlyniadau | Dull o fesur sy'n canolbwyntio ar y nodau ac yn gweithio'n ôl at y modd. |
| Attention Autism | Rhaglen hyfforddi bedwar cam i rieni a gweithwyr proffesiynol sydd wedi ei llunio i helpu datblygu sgiliau talu sylw mewn plant awtistig |
| ASD | Anwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (Autism spectrum disorders) |
| EYITP | Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (Early Years Integration Transformation Programme) |
| FRAIT | Offeryn asesu cydnerthedd teuluoedd (Family Resilience Assessment Instrument and Tool), sy'n helpu ymwelwyr iechyd i asesu cydnerthedd teuluoedd ac adnabod y cymorth sydd arnynt ei angen. |
| HCWP | Rhaglen Plant Iach Cymru (Healthy Child Wales Programme) |
| Makaton | Cyfres o symbolau ac arwyddion a ddefnyddir naill ai fel prif ddull cyfathrebu neu ffordd o gefnogi datblygiad lleferydd. |
| PGit | Magu plant. Rhowch amser iddo (Parenting. Give it time) |
| SALT | Therapi Lleferydd ac Iaith (Speech and Language Therapy) |
| SLC | Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (Speech, Language, and Communication) |
| SLCN | Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (Speech, Language and Communication Needs) |
| SLT | Therapydd Lleferydd ac Iaith (Speech and Language Therapist) |
| TWM | Siarad Gyda Fi (Talk With Me) – cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu |

| | |
|---|---|
| WellComm | Pecyn cymorth sgrinio lleferydd ac iaith i ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy’n gweithio gyda phlant chwe mis i chwe blwydd oed. |
| WCCIS | System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (Welsh Community Care Information System) |

# 1. Cyflwyniad

## Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

1.1 Mae profiadau cynnar plant yn cael effeithiau gydol oes ar lawer o agweddau o iechyd a llesiant. Gall y rhain amrywio o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyrhaeddiad addysgol a llwyddiant economaidd. Mae'r 'blynyddoedd cynnar' yn un o bum blaenoriaeth drawsbynciol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017b) a chaiff ei ddiffinio fel y cyfnod bywyd sy'n ymestyn o'r cyfnod cyn geni at 7 oed.

1.2 Mae'r tirwedd polisi sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar yn torri ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys gofal plant, chwarae, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r trydydd sector.

1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Rhaglen Plant Iach Cymru, y Cynnig Gofal Plant a'r Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf ac wedi cydweithio ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a'r trydydd sector, gan ddangos yn glir eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y Blynyddoedd Cynnar. Mae Ffyniant i Bawb (Llywodraeth Cymru, 2017b) yn nodi bod "buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn fuddsoddiad yn economi a gweithlu'r dyfodol." Mae'r Rhaglen Lywodraethu[1] bresennol yn amlinellu'r ymrwymiad i amddiffyn, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer ein pobl sy'n agored i niwed yn ogystal â chreu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

## Sail Resymegol yr Ymchwil

1.4 Roedd y pandemig COVID-19, a gychwynnodd ym mis Mawrth 2020, yn golygu cyfyngiadau sylweddol am resymau iechyd cyhoeddus i rwystro'r feirws rhag lledaenu ac i ddiogelu bywydau. Roedd hyn yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfnodau clo cenedlaethol. Roedd y rhain yn anochel yn tarfu ar wasanaethau a chymorth i blant a rhieni. Ers hynny, mae ymchwil helaeth wedi cael ei wneud ar effeithiau'r pandemig ar gymunedau, teuluoedd a phlant. Caiff rhywfaint o'r ymchwil hwn ei grynhoi yn Adran 3 o'r adroddiad hwn. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil hwn yn disgrifio'r ffyrdd y gwaethygodd y pandemig anghydraddoldeb strwythurol a chymdeithasol, gan gynyddu amlder Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, a chafodd effaith niweidiol ar ddatblygiad lleferydd ac iaith, iechyd meddwl a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol i lawer o blant yng Nghymru.

1.5 Er mwyn cydnabod y newid sylweddol hwn mewn cyd-destun a'r poblogaethau ychwanegol sydd mewn angen am gymorth, gweithredodd Llywodraeth Cymru ar yr

[1] Rhaglen lywodraethu: diweddariad [HTML] LLYW.CYMRU

angen i archwilio'r graddau y mae'r rhaglenni a pholisïau blynyddoedd cynnar presennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yng Nghymru, wedi'r pandemig. Fe wnaeth swyddogion Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi o'r gangen Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol (ar ran yr Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn Llywodraeth Cymru) gomisiynu Miller Research ym mis Mehefin 2022 i gyflawni ymchwil i'r tirwedd cyfnewidiol hwn. Roedd yr ymchwil yn cynnwys defnyddio arbenigedd academyddion, ymchwilwyr ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i ddeall ymhellach sut y gall Llywodraeth Cymru wrthweithio unrhyw anfantais neu oedi sydd wedi datblygu o ganlyniad i blant a'u teuluoedd yn colli'r cyfle i fanteisio ar y systemau cymorth a'r ymyraethau arferol yn ystod y pandemig. Diben ychwanegol i'r ymchwil oedd ystyried a oes angen mireinio'r polisïau a'r rhaglenni blynyddoedd cynnar presennol neu eu datblygu i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd mewn 'dyfodol ôl-bandemig'.

### Strwythur yr Adroddiad

1.6 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r ymchwil, a oedd yn cynnwys gwaith maes gydag amrywiaeth o academyddion/ymchwilwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag effeithiau cyffredinol y pandemig COVID-19 ar blant a theuluoedd (fel yr adroddwyd gan academyddion ac ymarferwyr) yn y meysydd thematig canlynol:

- Datblygiad plant a datblygiad cyfannol
- Iechyd meddwl a llesiant plant
- Magu plant, iechyd meddwl rhieni a dysgu yn y cartref
- Lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Gweithio amlasiantaeth ac ymyraethau.

1.7 Mae'r adroddiad wedyn yn crynhoi adborth (yn bennaf gan ymarferwyr) ar y rhaglenni a'r polisïau canlynol, sy'n cefnogi'r blynyddoedd cynnar[2]:

- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
- Rhaglen Plant Iach Cymru
- Magu plant. Rhowch amser iddo
- Siarad Gyda Fi: Cynllun cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Polisïau Llywodraeth Cymru ac iddynt y nod o liniaru'r niwed sy'n codi o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

[2] Nid yw'r astudiaeth yn cynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru, oherwydd mae'r rhaglen yn destun gwerthuso a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021a) Astudiaeth Delphi (Llywodraeth Cymru 2021a) o ddewisiadau i helpu adnabod, trin neu liniaru effaith COVID-19 ar blant o dan bump oed, a oedd yn canolbwyntio'n helaeth ar Gynnig Gofal Plant Cymru.

- System Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cwrcwlwm i Gymru.

1.8 Mae'r adroddiad yn cloi gyda rhai ystyriaethau polisi cyffredinol ar gyfer polisi Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru.

1.9 Defnyddir dyfyniadau drwy'r holl adroddiad i ddarlunio adborth gan academyddion ac ymarferwyr. Lle mae'r dyfyniadau gan ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi eu rôl broffesiynol neu deitl eu swydd, nodir eu proffesiwn. Lle daw dyfyniadau o ymarferwyr a gymerodd rhan mewn grwpiau ffocws, cyfeirir at y rhain fel "un a gymerodd ran mewn grŵp ffocws".

# 2. Dull

### Trosolwg o'r dull

2.1 Cafodd yr ymchwil ei gynllunio'n wreiddiol fel astudiaeth ddau gam aml-ddull yn cynnwys grwpiau ffocws ar-lein gydag academyddion/ymchwilwyr (Cam 1) yn cael ei ddilyn gan arolwg ar-lein o ymarferwyr ac wedyn cyfres o grwpiau ffocws gydag ymarferwyr (Cam 2). Y bwriad oedd mabwysiadu cynllun archwiliadol dilyniannol (Mihas and Odum Institute, 2019[3]), lle byddai'r cam cyntaf yn nodi canfyddiadau ansoddol cychwynnol a byddai'r ail gam wedyn yn profi'r canfyddiadau hyn gyda phoblogaeth fwy. Byddai hyn yn rhoi tystiolaeth feintiol y gellid ei archwilio mewn mwy o fanylder wedyn trwy gam terfynol o ymchwil ansoddol.

2.2 Gwnaed amryw o newidiadau i'r dull gwreiddiol yn ystod cwrs yr ymchwil, yn bennaf ynghylch trefn gwahanol elfennau'r astudiaeth. Caiff y dull terfynol a fabwysiadwyd (a'r sail resymegol dros newidiadau i'r dull gwreiddiol) ei ddisgrifio isod.

### Gweithredu Cam 1

2.3 Roedd yr ymchwil ar gyfer Cam 1 am gael ei gyflawni'n wreiddiol trwy grwpiau ffocws bach (sef bob un â thri i bump o academyddion) i ganiatáu ar gyfer trafod ar y cyd a rhannu tystiolaeth a chasgliadau. Fe wnaeth pennu dyddiadau ac amserau pan oedd academyddion o wahanol sefydliadau ar gael gyda'i gilydd ar gyfer sesiwn grŵp brofi i fod yn her sylweddol o ran logisteg. Felly, penderfynwyd cyfweld cyfranogwyr mewn cyfweliadau un-i-un yn lle hynny. Er ei fod yn golygu bod cyfle am ddeialog grŵp a chroes-ffrwythloni syniadau yn cael ei golli, roedd yn ffordd angenrheidiol o gyrraedd y nod o gynnwys academyddion prysur.

2.4 Cynhaliwyd cyfweliadau gydag 17 o academyddion sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o sefydliadau ymchwil a phrifysgolion ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Royal Holloway, Prifysgol Llundain. Roedd y rhestr o academyddion yn cynnwys cyfuniad o cysylltiadau perthnasol a ganfuwyd yn wrthrychol gan Lywodraeth Cymru trwy adolygiad desg o'r rheini sy'n ymwneud â datbygu polisi, ynghyd ag unigolion ychwanegol a ganfuwyd gan Miller Research,  hefyd drwy adolygiad desg. O'r 17 o academyddion a gyfwelwyd, cynigiwyd 12 gan Lywodraeth Cymru a chanfuwyd y pump arall gan Miller Research.

---

[3] [Learn to Use an Exploratory Sequential Mixed Method Design for Instrument Development (parsmodir.com)]

**Tabl 2.1: Nifer o Academyddion fu'n ymwneud â Cham 1**

| Lleoliad daearyddol Academyddion | Cyfanswm fu'n cymryd rhan |
|---|---|
| Prifysgolion / Sefydliadau Academaidd Lloegr | 11 |
| Prifysgolion / Sefydliadau Academaidd Cymru | 6 |
| Cyfanswm | 17 |

*Ffynhonnell: Miller Research*

2.5 Roedd gan yr academyddion hyn arbenigedd mewn amrywiaeth o feysydd arbenigol a oedd o fewn tri chategori yn bennaf: Datblygiad Plant, Iechyd Meddwl Plant, a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

2.6 Roedd cyfweliadau'n parhau am rhwng 45 munud ac awr ac yn ymwneud â'r themâu allweddol canlynol:

- Datblygiad plant a datblygiad cyfannol
- Lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Iechyd meddwl a llesiant plant, ac
- Iechyd meddwl a llesiant oedolion.

2.7 Cafodd nodiadau a gymerwyd yn ystod y cyfweliadau eu hychwanegu wedyn at Miro, llwyfan mapio meddwl ar-lein, lle'r oedd canfyddiadau cyfweliadau yn cael eu rhoi mewn grwpiau yn unol â'r thema a'r meysydd yr ymdriniwyd â hwy yn y canllawiau pwnc.

### Gweithredu Cam 2

2.8 Yn dilyn cyd-drafod ag academyddion yn ystod Cam 1, roedd y dull o weithredu Cam 2 yn cynnwys ymchwil meintiol ac ansoddol gydag ymarferwyr blynyddoedd cynnar ledled Cymru. Y bwriad gwreiddiol oedd cychwyn gydag arolwg ar-lein o ymarferwyr (yn profi'r canfyddiadau o Gam 1 a chaffael data meintiol sy'n cynrychioli'n gywirach farn ymarferwyr yn gyffredinol) a'i ddilyn gan gyfres o grwpiau ffocws i roi cyd-destun ac archwilio unrhyw wahaniaethau yng nghanfyddiadau'r arolwg.

2.9 Yn ymarferol, fodd bynnnag, nid oedd y dull hwn yn ddichonadwy. Y brif broblem oedd, er bod academyddion wedi rhoi rhywfaint o adborth defnyddiol ar effeithiau'r pandemig ar blant a theuluoedd – yn enwedig o fewn y pedwar maes thematig a restrir uchod – roeddent yn gyffredinol yn anghyfarwydd â manylion polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru ac felly nid oeddent yn gallu rhoi sylwadau digon manwl ar eu haddasrwydd wedi'r pandemig.

2.10 Roedd hyn yn golygu mai ychydig iawn oedd o gynigion pendant ar gyfer rhaglenni blynyddoedd cynnar y gellid eu rhannu gydag ymarferwyr trwy'r arolwg ar-lein, i ddangos y graddau o gefnogaeth i newidiadau a gynigiwyd gan academyddion. Roedd yr adborth roedd academyddion wedi gallu ei roi ar effeithiau'r pandemig yn rhoi llawer o wybodaeth ond roedd yn rhy eang i'w grynhoi i nifer rhesymol o gwestiynau. Yn ogystal, roedd y dystiolaeth yn ymwneud yn bennaf ag edrych yn ôl, ar sail yr hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i'r pandemig, yn hytrach nag argymhellion ar gyfer cynllunio polisïau a rhaglenni, sef damcaniaethau y gellid eu profi wedyn ar raddfa fwy.

2.11 O ganlyniad, cytunwyd, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, y byddai'n fwy gwerthfawr cynnal cyfres o grwpiau ffocws rhithiol gydag ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn gyntaf (a fyddai'n llawer mwy cyfarwydd â rhaglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru nag academyddion), i'w dilyn gan arolwg ar-lein o ymarferwyr i ganfod y graddau o gytundeb gyda rhai o'r teimladau a fynegwyd yn y grwpiau ffocws. Roedd hyn yn ein galluogi ni i ganolbwyntio cwestiynau'r arolwg ar bob un o'r rhaglenni blynyddoedd cynnar allweddol yng Nghymru, yn ogystal â gofyn i ymatebwyr yr arolwg raddio eu cytundeb â chyfres o ddatganiadau'n ymwneud â newidiadau i raglenni penodol, fel y cynigiwyd gan ymarferwyr mewn grwpiau ffocws. Roeddem hefyd yn gallu gofyn am flaenoriaethau mwy cyffredinol/thematig a godwyd gan academyddion ac ymarferwyr yn eu grwpiau ffocws perthnasol. O'r herwydd, roeddem yn gallu mesur y graddau'r oedd y sector ehangach yn cytuno â'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o gyfnodau cynnar Cam 2 ac – i raddau llai – Cam 1.

2.12 O gymharu â Cham 1 lle'r oedd y prif bwyslais ar effaith gyffredinol y pandemig COVID-19 ar blant a theuluoedd, roedd newid mewn pwyslais yng Ngham 2 tuag at bolisïau a rhaglenni penodol a gyflwynwyd yn y sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru ac addasrwydd y rhain wedi'r pandemig. Roedd ymatebion i'r arolwg yn hynod o gynhwysfawr yn gyffredinol, gan gynnwys sylwadau manwl ar raglenni unigol i esbonio graddau a fesurwyd. Roedd hyn yn ychwanegu manylder ychwanegol amhrisiadwy at y dystiolaeth a oedd yn bod eisoes ar yr hyn yr ystyriai ymarferwyr fel cryfderau a gwendidau polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru fel a ganfwyd trwy grwpiau ffocws yr ymarferwyr.

2.13 Rhwng 31 Mai 2023 a 21 Mehefin 2023 cynhaliwyd wyth grŵp ffocws rhithiol a phob un yn parhau tuag awr, gyda chyfanswm o 76 o ymarferwyr. Cafodd ymarferwyr eu recriwtio trwy ddosbarthu pecynnau gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd dwyieithog, yn amlinellu pwyslais yr ymchwil yn ogystal â manylion cyswllt i dderbynwyr fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd cefndiroedd proffesiynol cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn amrywio, rhwng therapyddion lleferydd ac iaith, ymwelwyr iechyd a gweithwyr cefnogi rhieni. Mae'n bwysig nodi mai

therapyddion iaith a lleferydd oedd y proffesiwn blynyddoedd cynnar â'r niferoedd mwyaf yn cymryd rhan yn y grwpiau ffocws hyn, oherwydd yr ymateb neilltuol o gryf gan ymarferwyr ac arweinwyr therapi iaith a lleferydd yn ystod y cyfnod recriwtio.

2.14 Ar ôl cyfnod interim pan gafodd canfyddiadau grwpiau ffocws Cam 2 eu dadansoddi trwy Miro, aeth yr arolwg ymarferwyr ar-lein yn fyw ar 22 Awst 2023 a chaeodd ar 25 Medi 2023. Cafwyd cyfanswm o 178 o ymatebion a gwblhawyd gan ymarferwyr ar draws y sector blynyddoedd cynnar, gyda 171 yn llenwi'r arolwg yn Saesneg a saith yn y Gymraeg. Unwaith eto, cafodd crynodeb o ymatebion ansoddol eu dosbarthu'n thematig a'u dadansoddi gan ddefnyddio Miro. Ar y llaw arall, cafodd data meintiol ei ddadansoddi gan ddefnyddio Microsoft Excel.


**Tabl 2.2: Nifer o Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar fu'n ymwneud â Cham 2**

| Dull o gymryd rhan | Cyfanswm a gymerodd ran |
|---|---:|
| Grwpiau Ffocws | 76 |
| Arolwg Ar-lein | 178 |

*Ffynhonnell: Miller Research*

2.15 Amlinellir y dosbarthiad o ymatebwyr i'r arolwg yn ôl proffesiwn blynyddoedd cynnar yn Ffigur 2.1. Fel y gellir gweld yn y ffigur isod, y proffesiwn mwyaf cyffredin o ymatebwyr oedd ymarferwyr gofal plant a gweithwyr cefnogi teuluoedd. Y proffesiynau mwyaf cyffredin ymysg y rheini a ddewisodd 'arall' oedd athro ymgynghorol, swyddog datblygiad iaith cynnar, swyddogion ADY, 'gofal cymdeithasol', cyfarwyddwr meithrinfa a swyddog gofal plant.

**Ffigur 2.1: Ymatebion i'r arolwg i'r cwestiwn 'Beth yw prif rôl eich swydd?'**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research  2023*

*Maint y sail = 189*

2.16 Elfen derfynol Cam 2 oedd adolygiad desg o astudiaethau ymchwil perthnasol yn ymwneud ag effaith y pandemig ar blant a theuluoedd, i osod y darn penodol hwn o ymchwil yn ei gyd-destun. Caiff y canfyddiadau o'r arolwg hwn eu crynhoi yn adran 3.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.17 Wrth adolygu canfyddiadau Cam 2 yr arolwg, daeth yn amlwg fod nifer bach ond nodedig o gamddealltwriaethau ynghylch rhaglenni penodol mewn ymatebion i'r cwestiynau ansoddol, yn ymwneud yn bennaf â'u haddasrwydd wedi'r pandemig. Rydym wedi rhoi sylw i hyn yn ein dadansoddiad. Er lles tryloywder a phragmatiaeth, rydym yn amlinellu'r meysydd hwn o ddryswch isod, ond yn hepgor cyfeirio atynt yn unlle arall yn yr adroddiad. Roedd y prif feysydd o ddryswch yn cynnwys:

- Drysu rhwng Rhaglen Plant Iach Cymru a Cychwyn Iach[4] (ee gwneud cyfeiriadau at docynnau llaeth a bwyd, wrth ddisgrifio'r cyn-raglen).
- Camddeall diben Rhaglen Plant Iach Cymru (ee cyfeirio at 'leoliadau' angen mwy o gymorth ac amser i 'gyflawni'r rhaglen' neu sylwadau fel

[4] Cymorth i brynu bwyd a llaeth (Cychwyn Iach)

'Dim ond os mai lleoliad sy'n gweithredu'r rhaglen mae rhieni'n cymryd rhan').

- Camsyniadau ynghylch manylion cyflwyno Dechrau'n Deg.
- Dryswch ynghylch Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar a'r canfyddiad ei fod yn ddewis arall yn lle Dechrau'n Deg.

2.18 Mae'n bwysig nodi y byddai, er mwyn gallu gwneud y pwyntiau hyn yn y lle cyntaf, angen i ymatebwyr fod wedi dweud eu bod naill ai'n gyfarwydd iawn neu'n gyfarwydd â'r polisi/rhaglen[5].

2.19 Yn yr adroddiad rydym hefyd wedi cydnabod yn ddiamwys unrhyw ymatebion ansoddol i'r arolwg sy'n aneglur o ran eu hystyr neu ddadl. Rydym wedi gwneud hynny er mwyn osgoi'r risg o gamddehongli'r dystiolaeth hon (lle mae'n amlwg nad oedd cyfle i ofyn cwestiwn dilynol i wirio ystyr yr hyn roedd yr ymatebwyr wedi ei ddarparu fel ateb) ac felly ystumio'r canfyddiadau a thanseilio dilysrwydd yr ymchwil.

2.20 Yn olaf, mae'n werth nodi, yn sgil y nifer sylweddol o therapyddion iaith a lleferydd yn y grwpiau ffocws ymarferwyr (dros 20 y cant) a'r nifer o ymarferwyr gofal plant ymysg ymatebwyr yr arolwg (23 y cant), bod sylwadau ac argymhellion, er yn gyffredinol gytbwys, wedi eu pwysoli'n rhannol o blaid y canfyddiadau penodol o'r proffesiynau penodol hynny.

[5] Sef, fod ymatebwyr yn cael eu cyfeirio yn yr arolwg fel *n*a ofynnwyd cwestiynau dilynol i unrhyw un a oedd wedi dweud nad oedd yn gyfarwydd â rhaglen benodol neu erioed wedi clywed amdani, ar y graddau mae'r rhaglen berthnasol yn ei ffurf bresennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig a beth, os rhywbeth, y byddent yn ei newid am y rhaglen wrth edrych tua'r dyfodol.

## 3. Cefndir a Chyd-destun

3.1 Mae amrywiaeth o astudiaethau ymchwil wedi cael eu cyflawni ar effaith COVID ar blant a theuluoedd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r adran hon yn adolygu'n fyr y prif astudiaethau perthnasol, gan amlygu cyfraniad unigryw'r ymchwil hwn at y llenyddiaeth sy'n bod eisoes.

3.2 Nod Astudiaeth Delphi Llywodraeth Cymru ar effaith COVID-19 ar blant o dan bump oed (Llywodraeth Cymru, 2021a) oedd deall effaith COVID ar blant bach yng Nghymru. Roedd yn archwilio hefyd sut mae'r effaith hon yn amrywio ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol, a strategaethau allweddol i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau niweidiol neu ddefnyddio ac ymestyn unrhyw effeithiau cadarnhaol yn deillio o'r pandemig. Cafodd sawl cylch o'r arolygon eu dosbarthu rhwng misoedd Mai a Hydref 2021 i gadarnhau safbwyntiau gan academyddion, arbenigwyr ac ymarferwyr. Cydnabuwyd a chyfeiriwyd yn helaeth at astudiaeth Delphi gan academyddion yng Ngham 1 yr ymchwil hwn ac o'r herwydd nid yw'n cael ei chrynhoi yma, er ei bod yn ddarn pwysig o'r cyd-destun y cyflawnwyd yr ymchwil hwn ynddo.

3.3 Cyflawnodd ymchwilwyr o Brifysgol Caerefrog a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth (Fox et al., 2021) ar liniaru effeithiau Covid-19 yn y blynyddoedd cynnar, a ariannwyd gan Adran Addysg Lloegr. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â llenyddiaeth sy'n bod eisoes o amrywiaeth o ddisgyblaethau a chronfeydd data i benderfynu: *"a yw'r mesurau a gymerwyd i reoli lledaeniad y feirws wedi cael effaith ar ganlyniadau i blant yn y blynyddoedd cynnar"; "pa gamau, os o gwbl, y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i COVID-19 i blant yn y blynyddoedd cynnar a ddiffinir fel plant 0-5 oed";* a *"pha gamau fyddai fwyaf defnyddiol pe digwyddai argyfwng posibl ar raddfa fawr yn y dyfodol?"* O ran effeithiau'r pandemig, maent yn amlygu datblygiad emosiynol-gymdeithasol, iaith a chyfathrebu, datblygiad corfforol, a chanlyniadau addysgol fel y prif feysydd sy'n peri pryder. Roedd yr ymchwil yn nodi 34 o raglenni y disgwylir iddynt liniaru effeithiau'r pandemig, naill ai yn ystod y pandemig ei hun, neu ar ei ôl. Mae'r awduron yn dadlau bod cadw lleoliadau blynyddoedd cynnar yn agored i bob plentyn yn bwysig mewn unrhyw argyfyngau yn y dyfodol, a bod angen 'buddsoddiad sylweddol' yn y sector er mwyn sicrhau bod lleoliadau a staff yn barod ac yn gallu cadw lleoliadau'n agored pan fo'n bosibl, a bod pawb o'r plant ar hyd yr ystod dim-i-saith oed yn derbyn cymorth wedi'i dargedu. Mae angen buddsoddi hefyd i gefnogi dysgu yn y cartref a chefnogi rhieni wrth helpu eu plant. Mae angen mwy o dystiolaeth ynghylch cymorth o bell seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth, a datblygiad corfforol.

3.4 Cyflawnwyd adolygiad dau-gam o bolisi Llywodraeth Cymru tuag at Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (Llywodraeth Cymru, 2021b) ac roedd yn cynnwys adolygiad desg o lenyddiaeth a thystiolaeth, yn ogystal â chyd-drafod â rhanddeiliaid ynghylch y polisi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Canfu'r adolygiad llenyddiaeth fod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn digwydd yn helaeth a'u bod yn anghymesur o gyffredin mewn poblogaethau agored i niwed. Canfu hefyd dros profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn peri rhwystr i blant ond roedd yn dadlau bod eu heffaith ar ganlyniadau yn dal i fod yn aneglur. Mae'r sail dystiolaeth ynghylch pa ymyraethau sydd fwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dal i fod yn annigonol wrth fesur effeithiau ar draws camau bywyd, er bod dealltwriaeth o sut i ddatblygu gwasanaethau sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac sy'n ystyriol o drawma wedi bod yn ddylanwadol yng Nghymru. Roedd yr ymchwil yn amlygu pryderon hefyd gyda'r fframwaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, er enghraifft ei fod yn *"patholegeiddio problemau cymdeithasol ac yn ceisio gweithredu atebion clinigiol iddynt",* yn beio ymddygiad rhieni, gor-symleiddio profiadau cymhleth o niwed, ac nad yw'n ymdrin yn ddigonol â'r gwahaniaethau cynnil rhwng mathau o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

3.5 Canfu'r cyd-drafod â rhanddeiliaid a gyflawnwyd ar gyfer yr adolygiad gefnogaeth i'r fframwaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ond canfu hefyd bryderon tebyg ynghylch ei fethiant i gydnabod cymhlethdod profiadau trawmatig, gan gynnwys: eu hachosion; effeithiau'r iaith a ddefnyddir ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sydd â'r potensial o fod yn negyddol a chodi cywilydd; a phrofiad o weithio 'mewn seilo' mewn perthynas â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru.

3.6 Er hynny, canfu'r arolwg hefyd fod rhanddeiliaid yn teimlo bod y fframwaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi cefnogi datblygu iaith a dealltwriaeth gyffredin o'r cysylltiad rhwng profiad a chanlyniadau, a oedd yn ei dro wedi helpu galluogi gwahanol sectorau a gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn cynnwys cyfres o egwyddorion gweithio, mewn ymateb i ganfyddiadau'r arolwg (Llywodraeth Cymru, 2021c).

3.7 Yn 2021 comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad cyflym o'r dystiolaeth ar effaith y pandemig ar lesiant meddyliol plant (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021). Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i ddatblygu Asesiad o Effaith ar Lesiant Meddyliol o effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc 10 i 24 oed yng Nghymru. Er bod rhannau o'r astudiaeth yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc dros saith oed ac felly heb fod yn benodol gysylltiedig ag ymchwil

blynyddoedd cynnar, mae'r awduron yn nodi bwlch mewn ymchwil sy'n ymwneud â llesiant meddyliol a datblygiad babanod a phlant bach, heb ddim ond un astudiaeth ar y pwnc. Yn gyffredinol, canfuwyd bod canlyniadau'r pandemig yn gyffredinol, a straen rhieni a'u teimladau o fod wedi eu hynysu, yn benodol, yn effeithio'n negyddol ar lesiant meddyliol plant. Canfuwyd hefyd fod ysgolion yn cau a tharfu ar addysg yn effeithio'n negyddol ar lesiant meddyliol plant, gydag effeithiau niweidiol yn waeth i deuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

3.8 O ran ymchwil i rieni a rhaglenni penodol, cyflawnodd yr NSPCC werthusiad proses o Pregnancy in Mind (NSPCC, 2021), rhaglen a luniwyd i ddarparu cymorth amenedigol i rieni sydd â gorbryder ac iselder neu mewn risg o hynny. Er iddi gael ei chynllunio fel rhaglen wyneb yn wyneb, roedd y pandemig COVID yn golygu iddi gael ei chyflwyno'n rhithiol yn ystod y cyfnod gwerthuso, o fis Mawrth hyd fis Medi 2020. Canfuwyd bod rhai manteision i gyflwyno rhithiol. Roedd y rhain yn cynnwys y ffeithiau fod: y rhaglen yn gallu cyrraedd mwy o rieni; roedd hi'n ei gwneud yn bosibl cael gwiriadau un-i-un ar gyfer llesiant; ac y gellid cyflwyno'r rhaglen ar y raddfa roedd ar rieni unigol ei hangen. Canfu'r gwerthusiad fod gallu'r rhaglen i addasu yn seiliedig ar fodolaeth rhwydweithiau lleol a llwybrau atgyfeirio a oedd wedi hen sefydlu eu hunain. Er hynny, canfuwyd bod adeiladu perthynas yn fwy anodd ar-lein, fel roedd ymwneud â thadau, yn benodol.

**Cyfrannu at y llenyddiaeth**

3.9 Gan fod pob un o'r astudiaethau uchod wedi cael eu cyhoeddi yn 2021, mae'r adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth a ddiweddarwyd ar effeithiau tymor canolig y pandemig. Digwyddodd gwaith maes rhwng misoedd Ionawr a Medi 2023, felly mae gwybodaeth gan academyddion ac ymarferwyr yn adlewyrchu effeithiau mwy diweddar COVID-19 ar blant bach a theuluoedd yng Nghymru.

3.10 Fodd bynnag, y prif wahaniaeth rhwng yr astudiaeth hon ac ymchwil blaenorol yw bod hon yn canolbwyntio ar bob un o'r prif raglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru, yn unigol. Er bod yr astudiaeth yn cynnwys trafod gydag academyddion ac ymarferwyr am effeithiau'r pandemig ar blant a theuluoedd, ac ar yr hyn a wnaeth ymarferwyr blynyddoedd cynnar i geisio gwrthweithio unrhyw anfantais ac oedi a achoswyd gan y pandemig, roedd hyn er mwyn rhoi cyd-destun hanfodol ar gyfer ystyried beth (os oes rhywbeth) sydd angen ei newid o fewn polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar wrth edrych tua'r dyfodol.

# 4. Effeithiau'r pandemig ar ffyrdd o weithio

**Effaith COVID-19 ar blant a theuluoedd**

4.1 Mae'r canfyddiadau o Gam 1 yr ymchwil hwn yn amlygu effeithiau niferus ar blant a theuluoedd yn deillio o'r pandemig COVID-19. Er nad oes gymaint o bwyslais ar hyn yn ystod Cam 2, rhoddodd ymarferwyr beth gwybodaeth er hynny ar effeithiau'r pandemig o'u persbectif hwy o ddarparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar 'ar lawr gwlad'.

**Llesiant ac iechyd meddwl**

4.2 Cafodd effaith niweidiol COVID-19 ar lesiant ac iechyd meddwl plant ei amlygu'n helaeth gan academyddion, gyda chonsensws fod y bwlch yn ymledu rhwng plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch ac is. Ffactor arall yr adroddwyd ei fod yn penderfynu difrifoldeb effaith COVID-19 oedd y graddau y cafodd plant unrhyw brofiad o ysgol cyn y pandemig. Gwnaed honiadau gan academyddion fod y rheini a oedd eisoes wedi dechrau yn yr ysgol yn debygol o golli rhyngweithio rheolaidd â'u cyfoedion, ond bod plant nad oedd erioed wedi profi ysgol o'r blaen yn aml yn dioddef effeithiau fwy fyth ac yn dangos lefelau uwch o orbryder.

4.3 Roedd ymarferwyr yng Ngham 2 yn cadarnhau'r argraff fod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl plant, gyda sylwadau fod i'r 'cohort COVID' hwn broffil gwahanol iawn o ran eu graddau o orbryder. Sylwyd bod rhai plant wedi bod ofn mynd allan neu gymysgu gyda phlant eraill unwaith y cafodd cyfyngiadau eu codi a grwpiau yn hygyrch.

4.4 Roedd ymarferwyr yn amlygu hefyd yr effaith niweidiol y cafodd y pandemig ar iechyd meddwl rhieni. Soniwyd am achosion lle'r oedd rhieni wedi colli eu hyder a phrofi gorbryder cymdeithasol wrth ystyried mynd i sesiynau wyneb-yn-wyneb. Roedd ymarferwyr yn sylwi hefyd ar rieni yn dioddef problemau ymlyniad gyda'u plant o ganlyniad i COVID-19, gan ddioddef gorbryder gwahanu wrth adael eu plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn ffenomenon yr haerodd ymarferwyr nad oeddent wedi sylwi arni cyn y pandemig.

4.5 Drwy holl grwpiau ffocws Cam 2, roedd ymarferwyr a staff blynyddoedd cynnar yn pwysleisio'r straen roedd COVID-19 wedi ei achosi iddynt. Rhoddodd y pandemig bwysau ar weithlu a oedd eisoes o dan bwysau, a oedd yn dwysáu ymhellach pan oedd cydweithwyr yn mynd ar absenoldeb salwch am orbryder neu salwch. Roedd morâl isel – ac mae'n dal i fod – yn broblem, gyda staff yn teimlo nad oeddent yn cael eu digolledu'n ddigonol mewn tâl, nac yn cael y gydnabyddiaeth statws a ddylai ddod gyda 'bod ar flaen y gad' yn ystod y pandemig.

**Sgiliau Cymdeithasol a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

4.6 Gwelwyd bod datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi arafu – neu hyd yn oed wedi llithro'n ôl – i lawer o blant o ganlyniad i'r pandemig a chyfnodau cysylltiedig o gyfnod clo cenedlaethol (Mawrth – Mehefin 2020 a Rhagfyr 2020 – Chwefror 2021, gyda chyfnodau clo ar lefel leol rhyngddynt). Roedd academyddion ac ymarferwyr yn priodoli hyn yn rhannol i'r graddau cyfyngedig o ryngweithiadau a fu rhwng rhieni a phlant o wahanol gartrefi a fyddai'n digwydd yn arferol yn ystod gweithgareddau grŵp. Y teimlad oedd bod y sefyllfa hon wedi arwain at blant heb fod angen ymestyn sgiliau iaith a chyfathrebu na chael camgymeriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi eu cywiro. Yr unig eirfa'r oedd plant yn cael profiad ohoni oedd yr un a ddefnyddid gan eu rhieni. Hefyd, roedd rhieni yn aml yn deall eu plant hyd yn oed pan oeddent yn defnyddio terminoleg anghywir neu anystyrlon. Roedd hyn yn cael ei waethygu gan absenoldeb addysg feithrin, sydd mewn amgylchiadau arferol yn darparu fforwm i wella datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu i wella datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu pan mai cyfyngedig yw'r gefnogaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y cartref.

4.7 Barnwyd hefyd fod y masgiau a oedd yn cael eu gwisgo gan bawb o'r rhieni ac oedolion eraill oedd yn rhyngweithio â phlant pan oedd y pandemig ar ei anterth wedi effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymysg plant bach, gan nad oeddent yn gallu gweld mynegiannau wyneb pobl nac yn elwa ar arwyddion gweledol i'w helpu i ddeall y negeseuon geiriol a oedd yn cael eu cyfleu mewn lleferydd.

4.8 Yn gymdeithasol, barnwyd bod plant wedi dioddef o ran eu gallu i ryngweithio gyda'u cyfoedion, yn ogystal â chydag oedolion. Roedd hyn yn cynnwys anawsterau wrth ddysgu sut i rannu a chyfathrebu'n iawn, ynghyd â lefelau gwael o ganolbwyntio, gorfywiogrwydd ac anawsterau gyda chydymffurfio â threfniadau rheolaidd.

**Datblygiad corfforol**

4.9 Yn ystod Cam 1 yr ymchwil, roedd academyddion yn cyfeirio at yr ataliad ar ddatblygiad corfforol plant fel canlyniad pryderus i'r pandemig. Gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar wedi cau am gyfnodau a phlant heb fod yn gadael eu cartrefi, roedd y cyfleoedd i blant hyrwyddo eu datblygiad corfforol trwy chwarae wedi eu lleihau'n ddifrifol. Roedd y cyfyngu hwn ar ddatblygiad corfforol yn digwydd mewn llawer o ffurf yn amrywio o diffyg dysgu defnyddio'r toiled i danddatblygu sgiliau echddygol manwl, megis dal pensel neu roi dillad ar lein sychu. Roedd rhai academyddion yn awgrymu bod cynnydd mewn amser sgrin a rhyngweithio â dyfeisiadau digidol wedi arwain at anweithgarwch corfforol, a oedd yn eu barn hwy yn cyfrannu at lefelau uwch o ordewdra ymysg plant. Adlewyrchir hyn mewn data

diweddar y Rhaglen Mesur Plant mewn rhai rhannau o Gymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).

4.10 Roedd academyddion yn pwysleisio dro ar ôl tro hefyd fod COVID-19 yn lleihau chwarae yn yr awyr agored oherwydd cyfyngiadau mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

4.11 Unwaith eto, dywedwyd bod hyn wedi effeithio'n anghymesur ar blant o gefndiroedd llai llewyrchus, yn enwedig y rheini oedd yn byw mewn ardaloedd trefol dwys a blociau tŵr lle'r oedd ganddynt felly lai o lecynnau awyr agored i fynd iddynt. Roedd ymarferwyr yn cyfeirio at golli grwpiau cymorth i rieni yn ystod y cyfnod hwn fel rhywbeth a gyfrannodd at ddiffyg trefn reolaidd a arweiniodd at amserau gormodol ar sgrin ac amserau gwely hwyrach i blant.

**Effaith y pandemig yng Nghymru**

4.12 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw effeithiau yn deillio o COVID-19 a oedd yn unigryw i Gymru, y consensws cyffredinol ymysg academyddion oedd bod yr effeithiau y sylwyd arnynt yn debyg ledled y Deyrnas Unedig. Nodwyd, fodd bynnag, ychydig o elfennau a oedd naill ai'n unigryw – neu'n neilltuol o lym – i blant a theuluoedd yng Nghymru.

4.13 Er enghraifft, cafodd y pandemig yr effaith o arafu datblygiad iaith Gymraeg mewn plant a oedd yn mynychu ysgolion a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ond yn dod o gartrefi Saesneg neu hiaith arall. Priodolwyd hyn i anallu rhieni i gyfathrebu â'u plentyn yn y Gymraeg ac absenoldeb cyfoedion ac ymarferwyr addysgu Cymraeg i'w plentyn ryngweithio â hwy. Roedd rhai academyddion yn amau y byddai'r broblem wedi cael ei lliniaru i raddau helaeth unwaith roedd plant wedi dychwelyd i ysgolion a lleoliadau gofal plant. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu darparu unrhyw ddata empiraidd i gefnogi'r ddamcaniaeth hon.

4.14 Er nad yw hyn yn unigryw i Gymru, teimlai academyddion fod y lefelau uwch o amddifadedd a thlodi plant yng Nghymru (o gymharu â rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig) wedi golygu mai cyfyngedig oedd yr amser a'r adnoddau ymysg rhieni i gefnogi eu plant. Mae hyn yn berthnasol ar lefel teuluoedd unigol, lle mai'r farn oedd bod rhai rhieni yng Nghymru nad oedd yn darllen i'w plant nac yn ymwneud â hwy gymaint â rhieni mewn ardaloedd mwy llewyrchus. Dengys data o Arolwg Carfan y Mileniwm (MCS) fod gwahaniaeth wedi bod rhwng datblygiad gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol plant o gefndiroedd cyfoethocach a thlotach cyn y pandemig ac felly rhaid inni fod yn ofalus wrth briodoli graddau effaith COVID-19 (Kelly et al., 2011). Er hynny, dywed canfyddiadau cychwynnol o'r Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain fod, yn ystod cyfnodau clo, rhieni sydd â lefelau uwch o addysg yn fwy tebygol o addysgu eu plant gartref (Villadsen et al.,

2020), gan awgrymu bod cydberthynas rhwng statws economaidd-gymdeithasol a'r lefel o addysg a dderbyniodd plant drwy gydol y pandemig.

**Effaith gwasanaethau a darfwyd / dibyniaeth ar leoliadau gofal plant**

4.15 Ar y cyfan, credai academyddion fod y diffyg mynediad at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC) – a arferai gael ei adnabod yng Nghymru fel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC) – yn ystod y cyfnod hwn wedi arwain yn helaeth at waethygu problemau a oedd yn bod eisoes, yn hytrach na chreu unrhyw broblemau newydd penodol. Roedd hyn yn cynnwys meysydd fel sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a datblygiad corfforol, a ganfuwyd gan amryw o academyddion fel problem cyn y pandemig, yn enwedig i blant o gartrefi economaidd-gymdeithasol is, rhywbeth y mae tystiolaeth ohono mewn ymchwil o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig (Senedd Cymru,  2021; Save the Children, 2016).

4.16 Problem fawr a achoswyd gan absenoldeb Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar oedd yr anallu i ganfod heriau datblygiadol ymysg plant. Mae'r heriau hyn yn cynnwys problemau ymddygiad, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Teimlai academyddion fod hyn yn neilltuol o berthnasol oherwydd *"po gynted y daliwch y broblem, yr hawsaf yw mynd i'r afael â hi".* Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan ymarferwyr grwpiau ffocws yn ystod Cam 2.

4.17 Roedd y diffyg cyswllt hwn yn golygu hefyd nad oedd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn gallu arsylwi datblygiad plant ac felly dibynnwyd ar rieni i adnabod unrhyw symptomau. Roedd yn arwain yn anochel at 'golli' llawer o heriau. Roedd academyddion yn nodi'r anawsterau a wynebid gan rieni yn y maes hwn, gan eu bod yn gweld llai o blant eraill fel 'meincnod' i gymharu datblygiad plant. O'r herwydd, roedd rhieni yn llawer mwy tebygol o wneud dyfarniadau anghywir am eu plentyn eu hunain.

4.18 Roedd academyddion o'r farn hefyd fod y cau dros dro a ddigwyddodd i  Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi cael effaith anghymesur o negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau o gefndiroedd difreintiedig. Haerwyd bod plant a ddaliodd i fynychu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar rhwng cyfnodau clo mewn sefyllfa lawer gwell na'r rheini a roddodd y gorau'n gyfan gwbl i fynychu, gyda'r teuluoedd mwyaf agored i niwed y lleiaf tebygol o ofyn am help neu o gymryd y cam eu hunain o fanteisio ar wasanaethau. Mae'n bwysig nodi bod rhai lleoliadau, trwy'r Cynllun Ymateb a Chymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws, wedi aros yn agored drwy gydol y pandemig i gefnogi gweithwyr allweddol a oedd â phlant 0-5 oed. Fodd bynnag, ni fyddai hyn wedi cynnwys pob teulu agored i niwed.

**Enghreifftiau o arferion da yn ystod y pandemig**

*Cymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn*

4.19 Drwy holl grwpiau ffocws Cam 2, amlygodd ymarferwyr amrywiol enghreifftiau o'r arferion gorau roedd lleoliadau blynyddoedd cynnar wedi eu integreiddio i'w gwasanaeth yn ystod y pandemig. Mae rhai o'r rhain wedi aros ar waith ers i gyfyngiadau gael eu colli. Roedd yr ymyraethau hyn yn amrywio o ddarparu ymyraethau iaith penodol ac arloesol i ffurfiau creadigol a hygyrch o gymorth i rieni a theuluoedd, yn ogystal â chefnogi ymarferwyr eu hunain.

4.20 O ran yr arferion gorau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plentyn, cyfeiriodd ymarferydd yng ngogledd Cymru at y sesiynau awyr agored, mynediad agored, seiliedig ar chwarae maent wedi bod yn eu cynnal i blant o dan bump oed ers cychwyn COVID-19, i geisio gwrthweithio anfanteision datblygiadol. Mae'r sesiynau hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig, wedi eu hariannu trwy'r Gronfa Datblygiad Plant a'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r sesiynau wedi canolbwyntio ar arsylwi datblygiad cyfathrebu ac iaith plant sy'n mynychu. Y teimlad oedd bod y gwasanaeth hwn wedi bod yn hanfodol – yn enwedig i blant gweithwyr allweddol – gyda'r ymarferydd yn honni bod gwahaniaeth nodedig yng ngalluoedd lleferydd ac iaith plant a oedd wedi mynychu'r sesiynau o gymharu â'r rhai na wnaeth fynychu.

4.21 Enghraifft arall o'r arferion gorau a ganfuwyd yn ystod y grwpiau ffocws oedd prosiect cynhwysiant, a hwyluswyd gan faes chwarae antur a Chanolfan Plant Integredig. Roedd ei bwyslais ar gefnogi plant sydd ag ADY yn ystod y pandemig. Yn ei hanfod, roedd y prosiect yn galluogi sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi plant sydd ag anableddau a chyflyrau niwroddatblygiadol i ddefnyddio maes chwarae antur gwag. Roedd hyn yn ymateb i'r pryder fod y plant hyn yn colli eu sgiliau echddygol manwl a rhyngweithio cymdeithasol, a waethygwyd gan anaddasrwydd lleoliadau chwarae confensiynol (megis canolfannau chwarae meddal) gan fod arnynt angen lle llai prysur a llai ysgogiadol i chwarae ynddo. Trwy ddefnyddio'r lle gwag, roedd hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau, gan ryngweithio hefyd â phlant eraill sydd ag ADY.

4.22 Cafodd sesiynau lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwaith chwarae a gyflwynwyd mewn Canolfan Llesiant eu hamlygu fel adnodd defnyddiol a oedd wedi cael ei danddefnyddio cyn y pandemig. Er hynny, dywedodd ymarferwyr fod hygyrchedd wedi cael ei gyfyngu i deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, ac roeddent yn awgrymu y gellid ehangu'r sesiynau i bawb o'r rhieni.

*Cymorth i rieni / teuluoedd*

4.23 Er ei bod yn well o lawer gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar ddychwelyd at gyflwyno wyneb yn wyneb wedi'r pandemig, roedd amryw o gyfranogwyr grwpiau ffocws yn cydnabod bod y symudiad at gymorth ar-lein a ysgogwyd gan COVID-19 wedi arwain at sawl achos o ymyraethau arloesol ac effeithiol a oedd yn aml yn torri rhwystrau i lawr a chynnwys teuluoedd a oedd yn 'anodd eu cyrraedd' gynt.

4.24 Roedd creu grwpiau rhieni ar-lein o ganlyniad i'r pandemig yn cael ei groesawu gan ymarferwyr, gyda grwpiau rhithiol 'odl a chân'[6] a mabwysiadu Makaton sylfaenol yn cael eu barnu i fod yn effeithiol wrth ddarparu'r cymorth angenrheidiol i rieni a theuluoedd. Roedd y cynnydd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael ei weld fel dull cadarnhaol o ymwneud â rhieni yn ystod y pandemig, gyda rhai lleoliadau blynyddoedd cynnar yn mabwysiadu postiadau Facebook dyddiol gyda gwahanol themâu ar gyfer pob diwrnod, gan amlygu gweithgareddau datblygiadol defnyddiol y gallai rhieni eu mabwysiadu gyda'u plant.

4.25 Cafodd creu llinell gymorth ymgynghori ei grybwyll gan ymarferydd fel dull cymorth defnyddiol, a oedd yn galluogi rhieni i ofyn cwestiynau a mynegi pryderon a all fod ganddynt am eu plant. Mae hyn wedi parhau ar ôl COVID-19 ac wedi cael ei integreiddio i'w gwasanaeth craidd. Roedd ymarferydd arall yn cyfeirio at greu llinell gyngor sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth roi gwybodaeth, cyngor a sicrwydd ar leferydd, iaith a chyfathrebu i rieni. Roeddent yn dweud *"roedd arnom eisiau gwneud hynny ers amser hir – fe wnaeth COVID ein galluogi i dorri'r rhwystrau hynny i lawr i weithio'n wahanol. Rhoddwyd amser inni i gynyddu a chryfhau ein hadnoddau ar-lein".* (Un a gymerodd ran mewn grŵp ffocws)

4.26 Yn yr un modd, soniodd ymarferwyr blynyddoedd cynnar mewn rhan arall o Gymru am lwyfan ar-lein 'Holi'r Gweithiwr Proffesiynol' lle'r oedd arbenigwyr mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu, ymarferwyr blynyddoedd cynnar a rhieni yn rhannu gwybodaeth ar feysydd datblygu allweddol yn amrywio o leferydd, iaith a chyfathrebu i fwydo o'r fron a chwsg.

4.27 Yng nghyd-destun ymweliadau cartref, roedd rhai ymarferwyr yn nodi bod rhieni a oedd yn ffilmio eu plant ar fideo yn eu cartref drwy gydol y pandemig wedi cael rhywfaint o fuddion, gan alluogi arsylwadau mwy dilys oherwydd bod y plentyn yn ei amgylchedd naturiol.

4.28 Mewn rhai achosion, cyflwynwyd ymweliadau drws i ollwng parseli argyfwng o fwyd, teganau ac offer TG perthnasol i deuluoedd agored i niwed, nad oedd ganddynt Wi-Fi na thechnoleg.

4.29 Er mwyn mynd i'r afael ag iechyd meddwl a gorbryder rhieni yn deillio o'r pandemig, roedd un ardal wedi cyflwyno 'welly walks' i alluogi teuluoedd i ymgyfarwyddo ag ymarferwyr blynyddoedd cynnar a'r cymorth a gynigir.

*Enghreifftiau o arferion da sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr*

[6] Mae grwpiau odl a chân yn cynnwys ailadrodd odlau a chanu gyda rhieni a phlant i gefnogi datblygiad iaith a llythrennedd.

4.30 Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r sector blynyddoedd cynnar yn cydlynu a chydweithio mwy er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a ysgogwyd gan y pandemig. Teimlai un ymarferydd fod therapyddion iaith a lleferydd ac ymwelwyr iechyd bellach yn cydweithio'n agosach, gan arwain yn uniongyrchol at fwy o atgyfeiriadau – a'r rheini'n fwy addas – at gymorth iaith a lleferydd. Enghraifft arall a grybwyllwyd oedd rhannu hyfforddiant ac adnoddau gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar ar sut i reoli'r garfan o blant yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan y pandemig, gyda phwyslais penodol yn cael ei roi ar sgiliau sylfaenol. Fe wnaeth un ymarferydd hefyd grybwyll gweithgor traws-sectorol a oedd wedi sefydlu sesiynau o'r enw 'Dydd Mercher Gweithio gyda'n Gilydd'. Roedd hyn yn ffurf pod-ddarllediad rhyngweithiol ar-lein lle'r oedd amrywiol randdeiliaid – gan gynnwys ymarferwyr blynyddoedd cynnar a rhieni – yn rhannu eu profiadau, gan roi mewnbwn seicolegol i helpu gyda'r heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys problemau ynghylch chwarae a dysgu i blant a llesiant rheini/gofalwyr.

# 5. Blaenoriaethau ar gyfer polisi Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru yn y dyfodol

5.1 Mae'r adran isod yn amlinellu effaith COVID-19 o fewn y meysydd thematig a amlinellir yng Ngham 1 (gweler yr adran Methodoleg), law yn llaw â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r themâu hynny ac atebion posibl neu argymhellion ar gyfer gwella'r ffordd o'u cyflawni. Mae'n bennaf seiliedig ar ganfyddiadau'r cyd-drafod ag academyddion, ac i raddau llai o grwpiau ffocws ymarferwyr (gan fod yr arolwg o ymarferwyr yn canolbwyntio'n fwy ar raglenni a pholisïau penodol blynyddoedd cynnar[7]). Fodd bynnag, mae adborth perthnasol o'r arolwg ar-lein wedi ei gynnwys lle bo'n addas.

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

5.2 Canfuwyd lleferydd, iaith a chyfathrebu (a chyfathrebu cymdeithasol yn enwedig) fel maes o angen sylweddol ers cychwyn y pandemig. Roedd ymarferwyr (yng Ngham 2) ac academyddion (yng Ngham 1) yn cytuno ar y pwynt hwn, gan bwysleisio ei bwysigrwydd. Cafodd y canfyddiad o angen lleferydd, iaith a chyfathrebu a oedd yn parhau a dwysáu ei grybwyll dro ar ôl tro, er nad yw'r angen cynyddol hwn (yn ôl ymarferwyr) yn cael ei adlewyrchu o angenrheidrwydd mewn data ymchwil. Er enghraifft, yn gyffredinol, ni chafwyd y cynnydd disgwyliedig mewn atgyfeiriadau at wasanaethau therapyddion lleferydd ac iaith y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai hyn fod oherwydd darpariaeth gwasanaethau therapyddion iaith a lleferydd ar-lein a grybwyllwyd gan amryw o therapyddion iaith a lleferydd Blynyddoedd Cynnar sydd â phrofiad o weithio mewn timau therapyddion iaith a lleferydd Dechrau'n Deg. Roedd y ddarpariaeth ar-lein hon yn cynnwys llinellau cynghori a fideos ar-lein y cafodd therapyddion iaith a lleferydd eu helpu i'w gwneud i blant a theuluoedd.

5.3 Yn anecdotaidd, roedd ymarferwyr yn adfyfyrio hefyd ar y newid ym mhroffiliau plant a atgyfeiriwyd at wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu, gyda mwy o'r plant hyn â phroblemau emosiynol-gymdeithasol y sylwyd arnynt. Sylwodd ymarferwyr hefyd ar fwy o achosion neu arwyddion o niwroamrywiaeth. Dywedodd un ymarferydd fod darpariaeth arbenigol ar gyfer plant bach sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol yn llawn yn eu hardal. Roedd yr angen hwn mor fawr mewn dosbarthiadau meithrin ysgolion fel yr ychwanegwyd cymorth uwch at ddarpariaeth derbyn prif ffrwd.

5.4 Mae'r pryderon hyn yn gyson â'r farn a fynegwyd gan academyddion yng Ngham 1. Dywedodd academyddion y gwelwyd bod datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi arafu ac nad oedd anwylderau iaith datblygiadol yn cael diagnosis yn ddigon

[7] Gan mai dyma lle'r oedd y prif fylchau yn y data a oedd yn bod ar ôl cwblhau'r ymchwil ansoddol.


cynnar yn ystod y pandemig ac ers hynnny. Roeddent yn esbonio hefyd y gallai plant yn treulio mwy o amser gyda theulu agos yn ystod cyfnodau clo wedi rhwystro plant rhag ‘ymestyn’ eu galluoedd iaith. Mae hyn yn gysylltiedig â phryderon ymarferwyr ynghylch datblygiad geirfa. Yn olaf, roedd academyddion yn cadarnhau y gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ddwysáu heriau emosiynol ac ymddygiadol yn ddiweddarach, ffenomenon roedd ymarferwyr eisoes yn ei chrybwyll, gyda llawer o gyfeiriadau ar y cyd at leferydd, iaith a chyfathrebu ac anghenion ADY yn dod i’r amlwg.

5.5 Er bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn faes o angen helaeth, mae effeithiau COVID-19 ar leferydd, iaith a chyfathrebu wedi amrywio. Dywedodd ymarferwyr fod lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi dioddef pan oedd plant yn derbyn llai o sylw gan eu rhieni a gofalwyr yn ystod cyfnod clod. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymarferwyr fod, i rai plant, bod gartref gyda’u teuluoedd yn ystod cyfnodau clo yn llesol i’w datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol pan oedd rhieni ar ffyrlo neu heb fod yn gweithio am reswm arall ac felly’n gallu treulio mwy o amser yn siarad gyda’u plant.

5.6 O ran polisi lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru, teimla ymarferwyr fod lle i wella. Dim ond 26 y cant o ymarferwyr a ymatebodd i’r arolwg oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod polisi iaith, lleferydd a chyfathrebu presennol Llywodraeth Cymru yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu’r teimlad a fynegwyd mewn grwpiau ffocws ymarferwyr. Roedd ymarferwyr o’r farn fod polisïau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn rhy haearnaidd a heb eu haddasu na’n gwbl addasadwy ar gyfer y ffyrdd mae’r angen wedi newid dros y sawl blwyddyn ddiwethaf. Yn fwy eang, roedd Dechrau’n Deg yn cael ei weld gan rai ymarferwyr fel cynllun sy’n llai effeithiol nawr nag oedd cyn y pandemig, yn wyneb y trawma a’r heriau helaeth yr achosodd COVID-19 i blant (gan gynnwys datblygiad eu lleferydd, iaith a chyfathrebu).

5.7 Pwynt arall o dir cyffredin ymysg ymarferwyr ac academyddion oedd yr angen am fwy o swm a gwell safon o hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Fel y darlunir yn Ffigur 5.1, roedd 85 y cant o ymatebwyr i’r arolwg naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf fod ar ymarferwyr blynyddoedd cynnar angen hyfforddiant penodol i ymdrin â’r problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi dod i’r amlwg wedi’r pandemig. Roedd ymarferwyr yn crybwyll yr angen i ddarparu mwy o hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu i ymwelwyr iechyd ac mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae hyn yn ychwanegol at fwy o hyfforddiant ar ADY, o ystyried y gorgyffwrdd a gydnabuwyd sydd rhwng lleferydd, iaith a chyfathrebu ac ADY.

**Ffigur 5.1: Y graddau mae ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno bod ar ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar angen hyfforddiant penodol i ymdrin â materion lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig.**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y sail = 169*

5.8 Roedd ymarferwyr yn tanlinellu'r angen hefyd am wiriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu mwy trylwyr gan ymwelwyr iechyd. Roeddent yn esbonio bod gwaith ychwanegol yn deillio o COVID-19. Yn ôl un ymarferydd, mae staff bellach yn ymchwilio i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plant iau. O'r blaen, efallai na fyddai hyn wedi cael ei ystyried o ddifrif hyd nes y byddai'r plentyn yn cyrraedd pump neu chwech oed.

5.9 Mewn ymateb i'r arolwg, roedd un ymarferydd hefyd yn pwysleisio'r budd sydd wedi dod o gael therapyddion iaith a lleferydd yn gweithio yn Llywodraeth Cymru. Roeddent yn dadlau bod hyn wedi bod yn allweddol wrth godi proffil lleferydd, iaith a chyfathrebu. Teimlai'r ymatebydd y dylai'r therapyddion iaith a lleferydd hyn gael contractau parhaol o fewn Llywodraeth Cymru.

5.10 Rhan bwysig o ddarpariaeth effeithiol yw'r angen am ddull gwell neu gyffredinol o asesu lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac eithrio'r dull WellComm[8] presennol, gydag un ymarferydd yn cyfeirio yn yr arolwg at ddull (dienw) y credir ei fod yn cael ei

[8] GL Assessment - WellComm Support

ddatblygu yn Llywodraeth Cymru. Caiff y dull hwn ei ddatblygu gan grŵp ymchwil Prosiect Pengwin[9]. Teimlai ymarferwyr nad oedd unrhyw un dull yn diwallu pob angen.

5.11 Cafodd nifer o rwystrau rhag darparu cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn effeithiol eu crybwyll gan ymarferwyr. Roedd cyllid yn rhwystr cyffredin, gyda galwad am wneud cynnig lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg ar gael i bawb ledled Cymru. Cafodd staffio ei grybwyll hefyd, gydag angen am fwy o therapyddion iaith a lleferydd yn ogystal â chyflogau uwch a mwy o amser/capasiti ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar yn gyffredinol. Mae trosiant staff yn achosi heriau ychwanegol, gan y gall lesteirio gallu lleoliadau a gwasanaethau i 'newid yr amgylchedd o gwmpas y plentyn' mewn ffordd gadarnhaol, gan arwain mwy at ymdrechion i 'newid y plentyn'. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r hyfforddiant annigonol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd yn her. Roedd ymarferwyr yn dadlau nad yw'r cynnig syml o hyfforddiant yn ddigon. Rhaid i gynigion hyfforddiant ryddhau staff ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw a rhaid iddo ddod law yn llaw â chymhellion i gymryd rhan, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gofal plant.

**Datblygiad Plant a Datblygiad Cyfannol**

5.12 Roedd llawer o'r sgwrsio ynghylch datblygiad plant a datblygiad cyfannol yn canolbwyntio ar blant sydd ag ADY a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn enwedig pan deimlid bod COVID-19 wedi gwaethygu'r heriau hyn neu rwystro darparu cymorth effeithiol.

5.13 Y neges allweddol gan ymarferwyr oedd bod angen pwysleisio dealltwriaeth gyfannol o ddatblygiad plant a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar anghenion plant sydd ag ADY wrth ddarparu gwasanaethau, canolbwyntio ar yr anghenion hyn a sicrhau bod pawb o'r staff yn cael eu hyfforddi'n addas mewn anwylderau sbectrwm awtistiaeth (ASD). Roedd un ymarferydd yn pwysleisio'r angen am ddull cyson ac unffurf o ymgorffori hyfforddiant anwylderau sbectrwm awtistiaeth a chrybwyllwyd amryw o brofiadau cadarnhaol gydag hyfforddiant o'r fath. Fe wnaeth un ymarferydd enwi'n benodol hyfforddiant Attention Autism, gan esbonio eu bod wedi ei ddefnyddio fel dull cyffredinol gyda phob plentyn a'i bod yn ymddangos ei fod wedi helpu gydag ymddygiad.

5.14 Mae'n werth nodi bod rhai ymarferwyr yn credu bod dealltwriaeth o sut i gefnogi plant sy'n profi ADY yn waeth bellach na'r hyn oedd cyn COVID-19. Er bod rhai plant sydd ag ADY wedi elwa o ddysgu gartref drwy'r pandemig, roedd ymarferwyr

[9] Prosiect Pengwin - Panel Cydgynllunio Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar Cymru

yn bryderus bod rhai ysgolion wedi mynd yn ôl at 'hen arferion' megis gwaharddiadau, nad oedd yn ddefnyddiol i'r plant hynny.

5.15 Ers cychwyn y pandemig, mae ymarferwyr wedi sylwi ar fwy o atgyfeiriadau yn dod drwodd i blant sydd ag arwyddion o ADY, neu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu y cred rhieni a gofalwyr y gallant fod yn gysylltiedig ag ADY. Mae hyn yn adleisio negeseuon cyson gan academyddion yng Ngham 1 fod angen am fwy o gefnogaeth i rieni wrth gyfathrebu gyda'u plant a rheoli eu hymddygiad mewn modd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Roedd ymarferwyr yn sylwi ar arwyddion o fwy o ddiddordeb a chydweithrediad gan rieni ers cychwyn y pandemig, gydag un ymarferwydd yn crybwyll bod nifer y rhieni sy'n mynychu grwpiau magu plant wedi treblu. Mae ymarferwyr yn dadlau y dylid cyfeirio rhieni at adnoddau hygyrch, addas a'u helpu i ddefnyddio'r rhain.

5.16 Roedd y pandemig yn achos trawma a phrofiadau niweidiol i lawer o blant, nid dim ond y rheini â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a restrir yn benodol yn y polisi ar gyfer hyn. Roedd ymarferwyr yn tanlinellu bod ar blant o amrywiaeth o gefndiroedd bellach angen cymorth ychwanegol. Roedd rhai yn beirniadu perthnasedd y dull o ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gyda llawer yn ei ddisgrifio fel dull o 'ymdrin â diffyg', ac yn mynegi pryderon ynghylch pwyslais ar gyfrif profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn hytrach na chydnabod effaith unigryw pob profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Maent yn gweld y derminoleg sy'n ymwneud â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gosod 'labelau' profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blentyn fel rhywbeth niweidiol. Yn hytrach, pwysleisiwyd chwarae fel strategaeth bwysig ar gyfer helpu plant i ddeall a symud trwy drawma.

5.17 Pwysleisiwyd pwysigrwydd chwarae hefyd gan academyddion a gymerodd rhan yng Ngham 1 o'r ymchwil hwn. Roeddent yn amlygu buddion chwarae, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2 o ysgol, lle mae ymarferwyr yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar baratoi dysgwyr ar gyfer profion llythrennedd a rhifedd ar draul sgiliau a gefnogir â chwarae megis cyfathrebu, rhannu, gwaith tîm, a datblygiad creadigol. Nid oedd academyddion mor bryderus fod chwarae mewn perygl o gael ei anghofio ar y lefel meithrin. Roedd ymarferwyr yn amlygu'r angen i gefnogi plant a theuluoedd a oedd wedi profi trawma. Roeddent yn galw hefyd am gefnogaeth a darpariaeth lawnach i rieni, yn enwedig y rheini sy'n 'fwy anodd eu cyrraedd'.

**Iechyd meddwl, llesiant a chydnerthedd plant**

5.18 Mae canfyddiadau Cam 1 yn cynnwys arsylwadau o sut y cafodd y pandemig effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant llawer o blant. Adroddwyd cynnydd mewn gorbryder cymdeithasol a gorbryder gwahanu mewn plant a dreuliodd fwy o amser gartref heb yr ysgogiad o gyfarfod plant nac oedolion eraill y tu allan i'w teulu

agosaf. Ar y llaw arall, amlygwyd hefyd sut roedd rhai plant wedi addasu'n dda i newidiadau yn ystod y pandemig. Mewn rhai amgylchiadau, roedd plant wedi ffynnu gartref gyda mwy o amser gyda'r teulu a chael mwy o sylw gan eu rhieni. Adroddwyd bod plant a dderbyniodd gefnogaeth a sylw ychwanegol gartref wedi gweld gwelliannau yn eu sgiliau llythrennedd, iaith a chyfathrebu, efallai oherwydd eu bod yn derbyn mwy o sylw nag y byddent fel arfer. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn dangos rôl cefndir cymdeithasol-economaidd wrth ffurfio profiadau plant yn ystod Covid-19. Yn aml, roedd gan y rhieni a oedd yn gallu gweithio o gartref fwy o adnoddau ac offer i gefnogi eu plant yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd profiadau yn wahanol i rieni a oedd yn wynebu diweithdra neu ffyrlo yn ystod Covid-19. Roedd y teuluoedd hyn o ganlyniad yn profi cynnydd mewn gorbryder a straen ariannol yn y cartref.

5.19 Roedd academyddion o Gam 1 yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored fel modd o wella iechyd meddwl a llesiant plant. Y farn oedd bod llecynnau awyr agored yn arbennig o werthfawr yn ystod y pandemig (pan oedd lefelau gorbryder yn uchel ymysg plant), gan eu bod yn galluogi plant i ddysgu mewn amgylchedd newydd, bod yn actif yn gorfforol a thyfu mewn hyder. Er gwaethaf manteision amlwg dysgu yn yr awyr agored a mentrau fel Ysgolion Coedwig, roedd pryder nad oedd y cyfleusterau hyn ar gael yn helaeth. Mewn llawer o achosion, dim ond iard fach oedd ar gael i chwarae ynddi i blant oedd yn mynychu lleoliadau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Roedd ymarferwyr yn pwysleisio bod cau parciau yn ystod Covid-19 wedi cael effaith ar chwarae yn yr awyr agored. Wrth i gyfyngiadau lacio, cafodd chwarae yn yr awyr agored ei ailgyflwyno mewn rhai ardaloedd yn ffurf mentrau fel 'Welly Walks'. Cafodd y Cwricwlwm i Gymru ei ganmol gan rai academyddion am ei bwyslais ar ddysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, roedd pryder hefyd fod llawer o ymarferwyr yn brin o'r hyder i arwain sesiynau chwarae yn yr awyr agored.

5.20 Yn unol â'r canfyddiadau o Gam 1, roedd ymarferwyr yn nodi bod llawer o blant wedi profi cynnydd mewn gorbryder yn ystod ac ar ôl cyfnodau clo cenedlaethol. Roedd ymarferwyr yn awyddus i amlygu sut mae llesiant a chydnerthedd plentyn yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar anghenion y plentyn. Un enghraifft o'r fath o hyn oedd yr angen i gefnogi babanod a rhieni newydd yn yr ychydig fisoedd cyntaf yn dilyn genedigaeth, er mwyn sicrhau bod rhieni'n derbyn y graddau cywir o gefnogaeth addas. Codwyd pryder y caiff babanod a aned yn ystod y pandemig eu disgrifio'n aml fel 'Babanod Covid', sy'n methu â chydnabod pwysigrwydd darparu cymorth i bob plentyn sy'n dangos gwahanol anghenion er mwyn asesu beth allai fod o ganlyniad i effeithiau'r pandemig a beth allai fod yn angen mwy megis ADY.

5.21 Roedd ymarferwyr yn pwysleisio angen hefyd i 'ganolbwyntio ar yr hanfodion', o ran cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant. Diffiniwyd yr hanfodion hyn fel 'diogelwch,

sicrwydd a hapusrwydd plant', a fyddai, o roi gwell sylw iddynt, yn cynyddu llesiant plentyn. Ar thema debyg, roedd ymarferwyr eraill yn pwysleisio pwysigrwydd cymuned, diogelwch a pherthyn, a oedd hefyd yn cael eu gweld fel pethau sy'n gwella'n fawr ar lesiant plant.

5.22 I grynhoi, roedd ymarferwyr ac academyddion yn cytuno bod y pandemig wedi peri heriau mawr i iechyd meddwl a llesiant plant, gan gael effaith fwy fyth efallai ar y rheini a oedd eisoes yn wynebu heriau ychwanegol. Fodd bynnag, mae angen pwysleisio na ddylid, lle bo plant yn dioddef o fwy o orbryder neu heriau iechyd meddwl, priodoli hyn yn awtomatig i'r pandemig yn unig. Yn hytrach, dylai achosion gael eu hystyried a'u hymchwilio'n llawn, er mwyn darparu cymorth addas i'r plentyn.

**Magu plant, iechyd meddwl rhieni a dysgu gartref**

5.23 Cafodd magu plant, iechyd meddwl rhieni a dysgu gartref eu nodi fel maes allweddol wrth asesu effeithiau'r pandemig ar flynyddoedd cynnar. Roedd academyddion yng Ngham 1 ac ymarferwyr yng Ngham 2 yn rhannu'r farn fod y pandemig wedi cael effaith negyddol yn gyffredinol ar iechyd meddwl rhieni a'u galluoedd magu plant.

5.24 Roedd academyddion wedi sylwi sut roedd dysgu gartref yn ystod y pandemig wedi achosi amrywiaeth o effeithiau ar blant a rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn gorbryder cymdeithasol a phetruster cyffredinol ymysg rhieni i gychwyn ar ddeinameg newydd yn y berthynas (megis ymgymryd â rôl addysgwr) gyda'u plentyn. Roedd ymatebion rhieni i'r pandemig yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai rhieni a oedd yn cael eu hystyried fel rhai cymwys ac isel o ran risg yn ei chael yn fwy anodd yn ystod y pandemig, gan eu bod wedi dibynnu o'r blaen ar gymorth allanol gan aelodau'r teulu neu dalu am ofal plant. Ar y llaw arall, roedd rhai rhieni eraill a oedd efallai wedi gorfod dygymod â lefel uchel o straen cyn y pandemig yn fwy gwydn ac wedi addasu'n dda i'r heriau a wynebwyd.

5.25 Roedd ymarferwyr yn nodi bod, ers y pandemig, gynnydd mewn gorbryder a cholli hyder cyffredinol ymysg rhieni. Fel y nodwyd eisoes yn yr adran ar ddatblygiad plant a datblygiad cyfannol, dywedwyd bod rhieni yn arbennig o bryderus ynghylch datblygiad emosiynol ac ymddygiad eu plant wedi'r pandemig. Roedd ymarferwyr yn nodi cynnydd hefyd mewn gorbryder gwahanu i rieni a phlant wedi'r pandemig. Nodwyd bod rhieni wedi dod yn rhy bryderus am ymddygiad a datblygiad eu plant, gyda rhai rhieni'n tybio bod gan eu plentyn ADHD neu ASD, os oeddent yn mynegi'r hyn roeddent yn eu gweld fel ymddygiadau annodweddiadol. Roedd ymarferwyr yn sôn am orfod tawelu meddyliau rhieni mewn llawer o achosion fod ymddygiad eu plentyn yn '*normal*' ac nad yw'n golygu o angenrheidrwydd fod gan blentyn ADY. Canfuwyd y tueddiad hwn gan academyddion hefyd, a oedd yn sylwi bod rhieni'n dueddol o roi 'diagnosis' o ADY i'w plentyn yn hytrach na deall bod ymddygiad eu

plentyn yn 'normal'. Fodd bynnag, roedd academyddion ac ymarferwyr yn pwysleisio bod cynnydd wedi bod mewn plant sydd ag ADY yn ystod ac ar ôl y pandemig. Mae'n angenrheidiol felly sicrhau yr ymdrinir yn ofalus a chyda llawer o sensitifrwydd â diagnosis o ADY mewn plant.

**Gweithio amlasiantaeth ac ymyrraeth gynnar**

5.26 O ran y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithio amlasiantaeth ac ymyrraeth gynnar yn y sector blynyddoedd cynnar, mae'r canfyddiadau o Gam 2 yn gydnaws â'r hyn a amlinellwyd yng Ngham 1. Yn ogystal, mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn gorgyffwrdd â llawer o'r canfyddiadau o'r gwerthusiad cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2022) o Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar[10].

5.27 Cafodd y graddau cyfyngedig roedd staff ar gael ei bwysleisio'n barhaus drwy gydol yr ymchwil fel rhwystr mawr rhag gweithio amlasiantaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae anawsterau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff mewn blynyddoedd cynnar (a briodolir yn rhannol i ganfyddiadau negyddol o waith yn y sector) wedi arwain at weithlu sy'n crebachu, yn enwedig mewn proffesiynau allweddol megis therapyddion iaith a lleferydd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr lleoliadau gofal plant. Mae hyn yn ei dro yn cael yr effaith o ganlyniad o'i gwneud yn fwy anodd i leoliadau blynyddoedd cynnar ryddhau eu staff ar hyfforddiant a fyddai'n helpu i ysgogi cydweithio a gweithio ataliol.

5.28 Roedd ymarferwyr o'r grwpiau ffocws a'r arolwg yn canfod y model ariannu presennol i'r sector fel rhwystr. Yn benodol, cyllid grant blynyddol, o'i gyfuno â'r gallu i gynnig contractau tymor byr yn unig ar gyfer swyddi allweddol (a nodweddir yn y Cynlluniau Peilot Braenaru)[11] yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn rhwystro parhad a chysondeb. Yn ogystal, roedd ymarferwyr yn mynegi pryder y gallai unrhyw gynnydd a wnaed mewn gweithio amlasiantaethol lithro'n ôl unwaith mae staff yn symud ymlaen i gyfleoedd am swyddi eraill.

5.29 Yn ogystal â phroblemau'n ymwneud â gweithluoedd, roedd rhai ymarferwyr yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch yr amrywiol systemau gwybodaeth ar gyfer gweithluoedd yn y sector, gydag anawsterau'n cael eu profi wrth gael at ddata. Roedd hyn wedi arwain ar sawl achos o ddyblygu data. Yn ogystal, roedd rhai ymarferwyr yn gweld y rheoliadau GDPR presennol fel rhwystr rhag rhannu gwybodaeth ynghylch teuluoedd rhwng asiantaethau blynyddoedd cynnar. Er mwyn galluogi integreiddio a chydgysylltu gwasanaethau yn llawn, roedd galwadau am

---

[10] Rhaglen beilot cydgynhyrchu sy'n gweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi ymuno â'r rhaglen fel braenarwyr. Nod y rhaglen yw profi dull mwy ystyrlon, integredig a phenodol o ymdrin â'r blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

[11] Cynlluniau Peilot Braenaru yw'r Gwasanaethau Byrddau Cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.

system o rannu gwybodaeth, gydag un porthol. Awgrymai rhai ymarferwyr y gallai'r system hon fod ar gael i rieni yn ogystal.


5.30 Er gwaethaf y rhwystrau a amlinellir uchod, roedd llawer o ymarferwyr a holwyd yn ystod Cam 2 yn teimlo bod COVID-19 wedi cynyddu'r tebygolrwydd o gydweithio agosach o fewn y sector. Roedd ymarferwyr yn haeru bod y pandemig wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r angen i leihau 'seilos'. Yn ogystal, roedd y symudiad tuag at ddefnyddio mwy o ddulliau ar-lein yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn galluogi mwy o weithio traws-sefydliadol. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn cyfeirio at yr arfer newydd o gael arbenigwyr o amrywiol broffesiynau blynyddoedd cynnar gyda'i gilydd yn yr un ystafell rithiol, i drafod y ffordd orau o gefnogi plant ar sail unigol. Fodd bynnag, roedd ymarferwyr yn cydanbod hefyd nad oedd dulliau ar-lein ynddynt eu hunain yn ddigonol ar gyfer datblygu cysylltiadau newydd cryf gydag asiantaethau blynyddoedd cynnar ac nad ydynt yn addas ar gyfer cynnwys pob teulu.

5.31 Roedd ymarferwyr yn pwysleisio pa mor bwysig yw gweithio amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod gan deuluoedd bwynt cyswllt cyson, sefydlu ymddiriedaeth a chynnal eu cyswllt â gwasanaethau cymorth. Yn ogystal, cydnabuwyd y bydd, trwy fwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, well dealltwriaeth ymysg ymarferwyr o'r nifer o wahanol wasanaethau mae teuluoedd yn gorfod ymwneud â hwy. O'r herwydd, dylid cynyddu ymdrechion i leihau'r cymhlethdod i ddefnyddwyr gwasanaethau.

# 6. Blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni a pholisïau

6.1 Dangosodd Cam 1 mai cyfyngedig oedd gwybodaeth academyddion, yn enwedig y rheini sydd mewn prifysgolion a sefydliadau yn Lloegr, o bolisïau a rhaglenni penodol ar gyfer blynyddoedd cynnar yng Nghymru (ac eithrio Dechrau'n Deg). Felly, un o amcanion allweddol Cam 2 oedd cael barn ymarferwyr ar addasrwydd yr amrywiol bolisïau a rhaglenni a gyflwynwyd yng Nghymru wedi'r pandemig. Yn y grwpiau ffocws, dangoswyd y rhestr o bolisïau a rhaglenni perthnasol i gyfranogwyr fel anogaeth a gofynnwyd iddynt roi sylwadau ar bob rhaglen yn ei thro. Ar y llaw arall, yn yr arolwg, gofynnwyd yn gyntaf i ymatebwyr raddio pa mor gyfarwydd oeddent â'r rhaglen neu bolisi o dan sylw. Ar ôl hunan-adrodd bod ganddynt o leiaf wybodaeth syflaenol o raglen benodol (sef bod yn weddol gyfarwydd neu'n gyfarwydd iawn), gofynnwyd iddynt wedyn roi gradd ar ei haddasrwydd wedi'r pandemig. Roedd wedyn gwestiwn penagored yn holi a oes angen i unrhyw beth newid ynghylch y polisi neu raglen o dan sylw wrth edrych tua'r dyfodol.

**Ffigur 6.1: Pa mor gyfarwydd oedd ymarferwyr gyda pholisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar Cymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y sail: 173*

*Niferoedd crai yn ôl Rhaglen (cyfarwydd iawn neu weddol gyfarwydd; ddim yn gyfarwydd/erioed wedi clywed amdani): Dechrau'n Deg (163;11), Teuluoedd yn Gyntaf (117;56), Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (86;87), Magu Plant. Rhowch amser iddo (86;87), Plant Iach Cymru (128;45), Siarad Gyda Fi (117;43), Polisïau'n ymwneud â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (115;58), Cwricwlwm i Gymru (141;32).*

6.2 Fel y gellir gweld yn Ffigur 6.1, roedd dros ddau draean o ymatebwyr yr arolwg naill ai'n gyfarwydd iawn neu'n weddol gyfarwydd â Dechrau'n Deg (bron i 94 y cant), y Cwricwlwm i Gymru (bron i 81 y cant) Rhaglen Siarad Gyda Fi (74 y cant), Rhaglen Plant Iach Cymru (74 y cant), Teuluoedd yn Gyntaf (68 y cant) a pholisïau'n ymwneud â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (66 y cant). Y rhaglenni'r oedd ymatebwyr yn lleiaf cyfarwydd â hwy oedd Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar a Magu Plant. Rhowch amser iddo (yn achos y ddwy raglen, roedd bron i 50 y cant o ymatebwyr naill ai'n gyfarwydd neu'n gyfarwydd iawn).

**Dechrau’n Deg**

6.3 Dengys data o’r arolwg ar-lein mai Dechrau’n Deg oedd y rhaglen blynyddoedd cynnar sydd â’r graddau uchaf o ymwybyddiaeth ohoni ymysg ymarferwyr. Hawliodd cyfanswm o 71 y cant o ymatebwyr eu bod yn gyfarwydd iawn â Rhaglen Dechrau’n Deg, gyda 23 y cant ychwanegol yn dweud eu bod yn weddol gyfarwydd. Dim ond chwech y cant o ymatebwyr a oedd naill ai’n anghyfarwydd neu nad oedd erioed wedi clywed am Dechrau’n Deg.

6.4 I raddau helaeth, roedd yr adnabyddiaeth uchel hon yn troi’n hyder ymysg ymarferwyr fod y rhaglen yn gallu diwallu anghenion plant a theuluoedd ar ôl y pandemig, gyda 34 y cant o ymatebwyr i’r arolwg yn teimlo bod Dechrau’n Deg yn diwallu eu hanghenion yn llawn a 55 y cant yn credu ei bod yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn rhannol wedi’r pandemig. O gymharu â pholisïau a rhaglenni eraill y cyfeiriwyd atynt yn yr arolwg, roedd ymatebwyr o’r farn mai Dechrau’n Deg oedd y fwyaf addas wedi’r pandemig. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau Cam 1, lle’r oedd academyddion – a oedd yn anwybodus gan fwyaf ar fanylion tirwedd polisi a rhaglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru – yn cynnig adborth cadarnhaol am Raglen Dechrau’n Deg. Awgrymai academyddion fod dull seiliedig ar ardal Dechrau’n Deg yn helpu i ennyn diddordeb ar y sail fod rhieni, wrth weld cymdogion yn elwa o’r ddarpariaeth, yn gweld y gwerth o gymryd rhan eu hunain. Mae’r dull hwn hefyd yn helpu i osgoi teimlad ymysg rhieni eu bod yn cael eu ‘targedu’ ar y sail fod pawb yn y gymuned yn gymwys.

6.5 Adlewyrchwyd y teimlad hwn gan ymarferwyr yn y grwpiau ffocws, gyda Dechrau’n Deg yn cael ei gweld fel rhaglen flaenllaw a oedd yn anhepgor wrth gynnig cymorth i blant a theuluoedd. O safbwynt ymatebion ansoddol o’r arolwg, teimlai llawer o ymarferwyr nad oedd angen newidiadau pellach i’r Rhaglen, gan honni ei bod wedi bod yn achubiaeth i deuluoedd.

6.6 Roedd ymarferwyr yn croesawu hefyd gweld y rhaglen yn cael ei hehangu’n raddol, gan ystyried hyn fel rhywbeth hanfodol er mwyn ennyn cydweithrediad a chefnogi teuluoedd agored i niwed ledled Cymru. Cefnogwyd hyn gan yr ychydig o academyddion a oedd yn ymwybodol o’r ehangau gan eu bod yn teimlo ei bod yn cyfateb â bwriad y polisi gwreiddiol i ymestyn ei chyrhaeddiad hyd nes daw yn rhaglen gyffredinol i bawb yn y diwedd. Cefnogir hyn gan ddata’r arolwg, gyda bron ddau draean o’r ymatebwyr yn cytuno’n gryf â’r cysyniad o’i hymestyn i bawb. Aeth rhai ymarferwyr ymhellach gan ddweud mai’r flaenoriaeth allweddol i bolisi blynyddoedd cynnar Cymru yw ehangu Dechrau’n Deg ar fyrder. Awgrymwyd y byddai symud oddi wrth ddull cod post at un sy’n gwbl seiliedig ar anghenion yn lleihau gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd nad oedd gynt wedi bod yn gymwys am gymorth, yn ogystal ag adnabod ac ymyrryd yn gynharach.

Er hynny, dywedodd academyddion ac ymarferwyr y gallai ehangu daearyddol, heb gyllid ychwanegol, beri risg o wanhau gwasanaethau a gynigir gan Dechrau'n Deg.

6.7 Roedd y rhaglen ei hun yn cael ei gweld gan ymarferwyr fel un neilltuol o bwysig wrth fynd i'r afael ag un o'r heriau mwyaf sy'n dod i'r amlwg o'r pandemig; sef anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod capasiti'r rhaglen i fynd i'r afael ag anghenion yn cael ei gyfyngu gan y nifer bach o staff a oedd ar gael, yn enwedig mewn rhai ardaloedd.

6.8 O ran cymhwysedd am Dechrau'n Deg, roedd carfan nodedig o ymatebwyr i'r arolwg a deimlai y dylid ehangu darpariaeth Cyfnod 2 i gynnwys nid yn unig yr elfen gofal plant ond hefyd y tair elfen arall, sef mwy o gymorth ymwelwyr iechyd, cymorth magu plant a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymwyd bod y sector yn dysgu o ganfyddiadau rhai o'r cynlluniau peilot braenaru sy'n gweithredu Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Er bod ehangu'r rhaglen yn cynnwys gofal plant o ansawdd uchel i fwy o blant dwyflwydd oed, teimlai cyfran lai o ymarferwyr y dylid hefyd ostwng cymhwysedd plant islaw dwyflwydd oed ac y dylai fod ehangu o safbwynt y nifer o oriau gofal plant a ariennir sydd ar gael i deuluoedd. Yn olaf, roedd galwadau i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng plant yn gorffen Dechrau'n Deg a chychwyn mewn dosbarth meithrin, gydag awgrymiadau fod risg ar hyn o bryd i'r plentyn lithro'n ôl yn ystod y cyfnod interim hwn os nad yw eu rhieni'n gallu talu am ofal ffurfiol eu hunain. Mae'n bwysig nodi y dylai bodolaeth y Cynnig Gofal Plant olygu, mewn theori, nad oes dim bwlch rhwng y pontio rhwng gofal plant Dechrau'n Deg ac addysg ysgol feithrin ran-amser. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae rhai teuluoedd nad ydynt yn manteisio ar y cymorth a ariennir sy'n cael ei gynnig (gweler Llywodraeth Cymru (2021d) am ymchwil i'r rhesymau y tu ôl i'r effaith hon) neu mae rhai meithrinfeydd ysgolion nad oes ganddynt y capasiti i'r plant fynychu yn ystod y cyfnod rhwng troi'n dair oed a'r mis Medi canlynol (a all fod yn ddau dymor ysgol i rai plant).

6.9 Er mwyn sicrhau y gall Dechrau'n Deg fanteisio i'r eithaf ar ei effeithiolrwydd o ran y cymorth mae'n ei gynnig, roedd ymarferwyr yn amlygu'r angen am fwy o gydweithio a chyfathrebu rhwng timau Dechrau'n Deg ac ymarferwyr a sefydliadau allanol.

6.10 Crybwyllwyd yr angen am well ffordd o weithio ar y cyd rhwng bydwragedd, ymwelwyr iechyd a staff awdurdodau lleol, yn ogystal â dull mwy cyson o weithredu rhwng y gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal, ar lefel ymarferwyr, roedd cyfranogwyr grwpiau ffocws ac ymatebwyr i'r arolwg yn dadlau'r achos dros well canllawiau i ymarferwyr Dechrau'n Deg sy'n ymdrin â phlant a theuluoedd ag anghenion cymhleth, yn enwedig o ymdrin â thrawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

6.11 Yn gyffredinol, fel sy'n wir gyda'r sector blynyddoedd cynnar yn ehangach, barnwyd bod cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r rhaglen i flaenoriaeth allweddol. Yn benodol, roedd ymarferwyr yn gofyn am gyllid pellach a chynnydd mewn recriwtio, yn enwedig ymysg ymwelwyr iechyd.

**Teuluoedd yn Gyntaf[12]**

6.12 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr i'r arolwg (bron i 68 y cant) yn gyfarwydd iawn (25 y cant) neu'n weddol gyfarwydd (43 y cant) â'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru 2017a). O'r rhain, teimlai chwarter ohonynt fod y rhaglen yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn llawn, teimlai 65 y cant ei bod yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn rhannol, teimlai wyth y cant (naw o ymatebwyr) ei bod yn diwallu ychydig ar anghenion plant a theuluoedd a theimlai un ymatebydd nad oedd Teuluoedd yn Gyntaf yn diwallu anghenion plant a theuluoedd o gwbl.

6.13 Er yr adborth cadarnhaol i raddau helaeth hwn ar y rhaglen, soniodd ymatebwyr am amrywiaeth o wahanol ffyrdd y byddent yn newid y rhaglen. Fel gyda sawl rhaglen a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn, roedd galwad sylweddol am gyllid a buddsoddiad ychwanegol mewn mwy o staff. Fel y nodwyd mewn adrannau cynharach o'r adroddiad, mae cyllid a staffio yn faterion ar wahân, er eu bod yn gysylltiedig. Mae angen ar awdurdodau lleol i gael y swm a dderbyniant wedi ei gynyddu i ddiwallu gofynion ychwanegol ar wasanaethau; gwnaed y sylw gan un ymatebydd fod *"y dyraniad cyllid wedi aros yn ei unfan dros y blynyddoedd diwethaf"* (Rheolwr Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf) ac adroddodd un arall fod Teuluoedd yn Gyntaf yn teimlo *"ychydig fel 'perthynas tlawd' Dechrau'n Deg"* (cyn therapydd iaith a lleferydd). "Dim digon o arian i wneud argraff sylweddol." Roedd ymarferwyr yn awgrymu hefyd y byddai ymrwymo cyllid Teuluoedd yn Gyntaf y tu hwnt i 12 mis yn galluogi cynllunio mwy hirdymor a chaniatáu gwella'r graddau y cedwir staff o ansawdd da.

6.14 Byddai cyllid ychwanegol hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gyflogi mwy o staff a chynyddu capasiti Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â thalu mwy i staff i gydnabod y swyddi heriol maent yn eu cyflawni: *"Mae llesiant staff hefyd yn flaenoriaeth anferth … Mae angen hefyd i gyflogau staff gynyddu i annog mwy i gymryd swyddi."* (Seicolegydd Addysg Cynorthwyol). Roedd ymarferwyr yn awgrymu y gallai cynnydd mewn capasiti arwain at gyflwyno mwy o gymorth wyneb yn wyneb i rieni (yn hytrach na chymorth ar-lein), darparu mwy o sesiynau un-i-un (yn hytrach na sesiynau grŵp) a chefnogi teuluoedd am gyfnod hirach o amser.

---

[12] Yn ystod grwpiau ffocws gydag ymarferwyr, anaml y trafodwyd Teuluoedd yn Gyntaf, er iddi gael ei rhestru fel un o'r rhaglenni allweddol o ddiddordeb. Felly, mae'r adran hon o'r adroddiad wedi cael ei seilio bron yn gyfan gwbl ar adborth o'r arolwg ar-lein o ymarferwyr.

6.15 Cafodd y ffenest bresennol o amser cyfyngedig o gymorth sydd ar gael trwy Teuluoedd yn Gyntaf (sef 12 wythnos) ei chrybwyll gan nifer o ymarferwyr fel cyfnod rhy fyr i wneud gwahaniaeth o ddifrif i deuluoedd. Awgrymai un ymatebydd i'r arolwg y gall gymryd 12 wythnos i ennyn gweithgarwch teuluoedd mewn argyfwng yn y rhaglen. Dywedodd eraill fod hyn yn arwain at ail-atgyfeiriadau i'r rhaglen a cholli momentwm wrth ddarparu cymorth. Awgrymwyd hefyd fod y 'sefyllfa drysau troi parhaus' hon yn ystumio'r data monitro sy'n awgrymu bod 'niferoedd anferthol' yn cael eu cefnogi, pan mewn gwirionedd *"mai'r un teulu yw, na ddiwallwyd eu hanghenion i greu cydnerthedd o'r blaen"* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar). Roedd ymatebydd arall fyth yn beirniadu'r *"cymorth cyfyngedig o ran amser nad yw mewn dyfnder, penolau ar seddau i mewn ac allan."* (Gweithiwr cymdeithasol)

6.16 Er bod rhai ymatebwyr yn galw am fwy o hyblygrwydd yn y rhaglen i gyfateb ag anghenion a chyd-destunau lleol, roedd un therapydd lleferydd ac iaith yn awgrymu:

> *"Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn brin o'r eglurder pwyslais sydd gan Dechrau'n Deg. Mae hyn yn arwain at fod amrywiaeth o brosiectau ond heb gyfeiriad clir, fel sydd gan Dechrau'n Deg. Gall deimlo fel pe bai prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio ar wahân yn hytrach na'r ffordd gydweithredol mae'r timau sy'n rhan o Dechrau'n Deg weithio."* (Therapydd Iaith a Lleferydd)

6.17 Gwnaeth ymatebydd arall gyfeiriad mwy penodol at yr angen am fwy o ganllawiau wedi eu diweddaru i'r rheini sy'n gweithredu'r rhaglen[13].

6.18 Teimlai amryw o ymatebwyr y dylid cyfuno'r rhaglen â rhaglenni blynyddoedd cynnar eraill, yn enwedig Dechrau'n Deg, i ganiatáu canoli pob cyllid a gweithredu cyffredinoliaeth gynyddol[14] sy'n seiliedig ar angen yn hytrach na chod post. Teimlai un ymatebydd fod risg o ddyblygu rhwng y ddwy raglen ac awgrymai un arall y gallai cyfuno'r ddwy raglen rwystro rhieni rhag gorfod ailadrodd eu stori wrth wahanol asiantaethau. Awgrymwyd hefyd y gellid cysylltu Teuluoedd yn Gyntaf (ynghyd â Dechrau'n Deg) yn agosach â ffrydiau cyllid y tu allan i'r blynyddoedd cynnar, megis y Grant Cymorth Tai[15] i *"fanteisio i'r eithaf ar gyrhaeddiad y tair rhaglen unigol at bob teulu agored i niwed"* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar)

6.19 Mae tystiolaeth i awgrymu y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o Raglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r hyn mae'n ei gynnig, ymysg teuluoedd ac ar draws sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd. Soniodd un ymarferydd am ddiffyg dealltwriaeth ymysg timau Dechrau'n Deg o beth mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ei

---

[13] Cafodd y canllawiau diweddaraf eu cyhoeddi yn 2017 ac felly cyn y pandemig: [Teuluoedd yn Gyntaf: canllawiau i awdurdodau lleol (llyw.cymru)]()

[14] Mae'r cysyniad 'cyffredinoliaeth gynyddol' yn deillio o'r syniad y gellir cyflawni cyfiawnder cymdeithasol trwy gydraddoldeb mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau o ansawdd uchel.

[15] [Grant Cymorth Tai (llyw.cymru)]()

wneud; roedd un arall yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ar beth mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ei gyflawni, yn enwedig yng nghyd-destun ehangu Dechrau'n Deg.

6.20 Roedd ffyrdd eraill roedd ymarferwyr yn awgrymu y gellid gwella'r rhaglen yn cynnwys:

- Prosesau comisiynu a monitro mwy trylwyr: *"Ni chaiff Teuluoedd yn Gyntaf ei chomisiynu na'i monitro'n drylwyr a dw i ddim yn credu bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r budd gorau."* (Rheolwr Gofal Plant a Magu Plant)
- Ehangu cylch gwaith y rhaglen i gynnwys teuluoedd pobl hŷn, oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio a'r nifer o blant sy'n gofalu am berthnasau hŷn.
- Cymorth wedi ei dargedu'n fwy ar gyfer iechyd meddwl.
- Mwy o gydweithio gyda'r trydydd sector i ennyn gweithgarwch teuluoedd anodd eu cyrraedd.

6.21 Dywedodd tri ymatebydd i'r arolwg nad oedd dim y byddent yn ei newid ynghylch Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd eraill yn pwysleisio gwerth y staff sy'n gweithredu'r rhaglen: *"Dw i'n teimlo bod staff Teulu yn Gyntaf [sic] yn gweithio y tu hwnt [i'w dyletswyddau] …"* (Gweithiwr cymorth teuluoedd)


**Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar[16]**

6.22 Dengys canlyniadau o'r arolwg fod y mwyafrif (67 y cant o'r is-set berthnasol o ymatebwyr) wedi mynegi bod yn rhaglen yn diwallu anghenion plant a theuluoedd 'yn rhannol', gyda 23 y cant ychwanegol yn datgan ei bod yn diwallu eu hanghenion yn llawn. Amlinellir hyn yn Ffigur 6.2 isod.

---

[16] Gweler Atodiad A

**Ffigur 6.2 I ba raddau mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn ei ffurf bresennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig?**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y Sail: 81*

6.23 Barn gyffredin oedd bod ar Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar angen buddsoddiad mwy hirdymor, gyda 43 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn[17] a llai na 2.5 y cant naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 11 o ymatebwyr yn galw'n benodol am eglurder bod Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn flaenoriaeth hirdymor heb gael eu hannog (sef mewn ymateb i gwestiwn agored ar beth y byddent yn ei newid ynghylch y rhaglen). Esboniodd un eu bod yn teimlo eu bod *"bellach mewn cyfnod lle nad ydym yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd o Ebrill 2024 ymlaen. Nid yw'r diffyg gwybodaeth hwn yn annog parhad."* (Cyn Therapydd Iaith a Lleferydd). Ar bwynt cysylltiedig, roedd ymarferwyr yn pwysleisio'r angen am i Lywodraeth Cymru gydnabod yr amser sy'n ofynnol i sefydlu'r rhaglen yn llawn. Dywedodd un

[17] Yn benodol: "Mae ar Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar angen buddsoddiad mwy hirdymor i gynnal a phrif ffrydio'r gwasanaethau a'r cymorth mae wedi eu hwyluso."

ymatebydd fod ar y rhaglen *"angen cymorth i'w rhoi ar ei thraed. Mae'n dal yn ei babandod o gymharu â rhaglenni eraill mwy sefydledig."* (Gweithiwr Cymorth Tad)

6.24 Oherwydd yr angen helaeth – a chynyddol – sydd wedi dod allan o'r pandemig, roedd ymarferwyr yn galw am ehangu cyrhaeddiad Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar ar draws Cymru. Roedd rhai yn dadlau y dylai fod wedi cael ei huno 'er mwyn un dull ar gyfer Cymru, yn hytrach na rhoi rhyddid i'r Braenarwyr ddewis eu dull arbrofol eu hunain.' Ar y llaw arall, roedd eraill yn canmol yr hyblygrwydd o fewn y rhaglen ac awgrymai un ymatebydd y dylai Braenarwyr gael mwy o ryddid i addasu eu dull, lle nad yw wedi gweithio.

6.25 Roedd ymarferwyr eraill yn awgrymu y byddai cysoni'r rhaglen yn ffurfiol â Dechrau'n Deg yn caniatáu ar gyfer cyrraedd pawb a galluogi mwy o ardaloedd daearyddol i elwa o'r rhaglen. Pwysleisiodd un ymarferydd fod *"rhywfaint o waith trawsnewidiol wedi gweld cynnydd mawr wrth symud ymlaen tuag at gyffredinoliaeth gynyddol, ond ar hyn o bryd nid yw'r trefniadau ariannu a darparu gwasanaethau ar gyfer Dechrau'n Deg yn cydgyfeirio â dull gwaith newid systemau a bennir o dan y rhaglen braenarwyr* [sic]." (Rheolwr awdurdod lleol)

6.26 Awgrym rhai ymarferwyr oedd, er bod Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar wedi gwneud llawer i wella integreiddio cymorth blynyddoedd cynnar, gellid gwneud mwy i gael gwared ar systemau ariannu ac adrodd sy'n dyblygu neu'n amrywio rhwng gwahanol raglenni blynyddoedd cynnar. Teimlai un ymatebydd fod *"y realiti presennol yn ei gwneud yn anodd iawn dod â ffrydiau cyllid at ei gilydd a gyda'r hinsawdd ariannol presennol, mae risg fod pobl yn 'llithro'n ôl i weithio mewn seilos'."* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar)

6.27 Yn ogystal â chael rhyddid gan gyllidwyr (yn ei hanfod, Llywodraeth Cymru) i gysoni rhaglenni ar lefel strategol, y farn oedd bod mwy o integreiddio (trwy Raglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar) yn ddibynnol ar well cyfathrebu rhwng yr amrywiol rhanddeiliaid sy'n rhyngweithio â theuluoedd (yn enwedig iechyd ac addysg) a mwy o ymwybyddiaeth ac ymrwymiad gan ymarferwyr i'r Rhaglen.

6.28 Tanlinellwyd pwysigrwydd dysgu oddi wrth y dull Braenaru, gyda rhai ymatebwyr i'r arolwg yn amlinellu gwerth galluogi Braenarwyr newydd i ddysgu gan y Braenarwyr hynny sydd wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen ers yn hirach: *"Ehangwch hi i fwy o ardaloedd ond anogwch ardaloedd newydd i edrych ar y gwaith a wneir gan y rhai presennol wrth gynllunio eu gwasanaeth eu hunain."* Cynorthwyydd therapi lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg).

6.29 Yn fwy eang, roedd ymarferwyr yn sôn am y ffyrdd gwahanol o fesur effaith rhaglen fel Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Roedd teimlad bod y

rhaglen yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar yr hyn sy'n bosibl ei fesur ond bod angen cyflwyno mesurau mwy ystyrlon o ganlyniadau llwyddiannus.

6.30 Yn olaf, roedd amryw o ymarferwyr yn pwysleisio'r angen i gynyddu buddsoddiad mewn staff, gan adleisio adborth a wnaeth ar raglenni eraill a'r agenda blynyddoedd cynnar yn gyffredinol. Dywedodd un therapydd iaith a lleferydd wrth ymateb i'r arolwg fod *"y cynllun damcaniaethol terfynol yn swnio'n wych ond mae'r galw ar y gweithlu i'w gyflawni yn bryder anferthol. Mae angen buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar am fwy o staff a mwy o gyfleoedd i gamu ymlaen mewn swyddi fel bod staff yn cael eu cadw."*

**Rhaglen Plant Iach Cymru**

6.31 Daeth y mwyafrif o sylwadau am Raglen Plant Iach Cymru gan ymatebwyr i'r arolwg, er i'r rhaglen gael ei thrafod hefyd yn y grwpiau ffocws i ymarferwyr. Ymysg y rheini a oedd yn gyfarwydd iawn neu'n weddol gyfarwydd â Rhaglen Plant Iach Cymru (cyfanswm o 74 y cant), teimlai 83 y cant ohonynt fod y rhaglen ar hyn o bryd yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn llawn (23 y cant) neu'n rhannol (60 y cant) wedi'r pandemig.

6.32 Yn debyg i'r adborth ar lawer o'r rhaglenni blynyddoedd cynnar a gynhwysir yn yr ymchwil hwn, roedd llawer o'r gwelliannau a awgrymwyd i Raglen Plant Iach Cymru yn ymwneud â'r gweithlu. Soniodd amryw o ymarferwyr am yr angen i wella cysondeb y mynediad at ymwelwyr iechyd a sicrhau bod pob teulu yn derbyn isafswm nifer yr ymweliadau a bennir yn amserlen gysylltiadau Rhaglen Plant Iach Cymru: *"… mae llawer o deuluoedd nad ydynt yn derbyn y gwiriadau y dylent gan yr ymwelwyr iechyd oherwydd llwythi achosion gwag …"* (Seicolegydd Addysgol Cynorthwyol). Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg fod diffyg cysylltiadau teg ag ymwelwyr iechyd yn cael effaith ganlyniadol ar atgyfeiriadau at gymorth arbenigol: *"Mae mynediad at ymwelwyr iechyd yn anwadal. Mae rhai plant yn cael cyswllt cyfyngedig o'u genedigaeth at 3 oed sy'n gohirio'r gallu i gael at wasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar."* (Athro)

6.33 Problem arall sy'n deillio o lwythi achosion gwag a phwysau gweithlu yw bod rhieni'n gweld gwahanol ymarferwyr gofal iechyd ar wahanol ymweliadau. Roedd ymarferwyr felly yn canfod angen i sicrhau mwy o barhad ymarferwyr gofal iechyd, yn enwedig ymwelwyr iechyd: *"Mae'r tîm iechyd … yn dal i fod yn anghyson iawn – newidiadau parhaus mewn ymwelwyr iechyd, ddim yn aros yn eu swydd yn hir / salwch ayyb* [sic]*."* (Ymarferydd Gofal Plant) Dywedodd ymatebydd arall i'r arolwg fod rhieni *"nad ydynt yn gwybod pwy yw eu hymwelydd iechyd na sut i gysylltu â hwy"* (Ymarferydd Magu Plant) oherwydd nad ydynt wedi datblygu'r adnabyddiaeth a fyddai'n dod gyda chyswllt rheolaidd â'r un ymwelydd iechyd.

6.34 Roedd amryw o ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn rhoi sylwadau o safbwyntiau proffesiynol amrywiol (gan gynnwys gofal plant, magu plant a therapi lleferydd ac iaith) yn awgrymu nad oedd Rhaglen Plant Iach Cymru yn cael ei chyflawni'n llawn oherwydd problemau recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd, her sydd wedi dod yn fwy cymhleth ers y pandemig. Mae niferoedd mawr yn mynd ar salwch hirdymor neu'n gadael y proffesiwn, sy'n rhoi mwy fyth o bwysau ar y rheini sy'n dal yn eu swydd. Mae ymwelwyr iechyd yn gorfod ymgymryd â graddau sylweddol o gyfrifoldebau diogelwch ac awgrymai ymatebwyr i'r arolwg ei bod yn hanfodol gwella amodau gwaith a morâl i rwystro'r argyfwng gweithlu rhag gwaethygu ymhellach fyth.

6.35 Barn gyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr oedd bod y broblem capasiti yn deillio i raddau helaeth o'r lleihad mewn niferoedd o ymarferwyr gofal iechyd blynyddoedd cynnar sydd ar gael i lenwi swyddi yn hytrach na diffyg cyllideb i dalu cyflogau. Er hynny, teimlai rhai ymarferwyr y dylid buddsoddi mwy yn y rhaglen i gynyddu staff, sicrhau cyrraedd y cysylltiadau gofynnol, diwallu anghenion ychwanegol, yn enwedig i deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, a chaniatáu ar gyfer model gweithredu sy'n wirioneddol ataliol yn hytrach nag adweithiol: *"Angen mwy o fuddsoddi i gyflawni mwy o gysylltiadau, mae hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i gynnydd dramatig yn anghenion teuluoedd yn dilyn y pandemig / Deddf ADY a gofynion cysylltiedig."* (Uwch Nyrs ymweliadau iechyd).

6.36 Roedd nifer o ymatebwyr i'r arolwg yn awgrymu newidiadau i'r amserlen cysylltiadau a bennir gan Raglen Plant Iach Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau cyn-enedigol i bawb, cynyddu'r 10 presennol o gysylltiadau gofynnol/isafswm, caniatáu ymwelwyr iechyd i ddefnyddio eu doethineb proffesiynol ynghylch pa gysylltiadau sydd eu hangen (sef mwy neu o bosibl lai na'r isafswm o 10) a chysoni cysylltiadau â'r Rhaglen Dechrau'n Deg, o leiaf i rai teuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg: *"Mae angen i Raglen Plant Iach Cymru gael yr un llwybr ymweld ag Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg. Mae'r bwlch rhwng 15 mis a 27 mis yn rhy llydan ac mae gormod o broblemau'n cael eu colli."* (Ymatebydd i'r arolwg, ni nodwyd prif rôl ei swydd)

6.37 Roedd enghreifftiau o lle'r oedd ymarferwyr yn awgrymu newidiadau i amserau penodol cysylltiadau[18] yn cynnwys bod y cyswllt tair a hanner mlwydd oed yn cyd-ddigwydd â'r imiwneiddiadau mae plant yn eu derbyn yn dair blwydd a phedwar mis, cyswllt ychwanegol rhwng chwe mis a 15 mis a chyswllt ychwanegol rhwng 27 mis a thair a hanner mlwydd oed. Yn ogystal â chynyddu nifer y cysylltiadau, awgrymwyd bod angen i'r cysylltiadau hyn cael eu cofnodi'n llawn yn y data monitro, rhywbeth nad yw'n digwydd ym mhob achos:

[18] Sef, oedran y plentyn pan ddylai gael cyswllt â'r ymwelydd iechyd, fel y pennir gan Raglen Plant Iach Cymru.

*"Nid yw 10 cyswllt 'gofynnol' dros y cyfnod o 5 mlynedd i ddigon i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd. Mae'r mwyafrif o ymwelwyr iechyd yn cefnogi teuluoedd yn llawer mwy na'r 10 cyswllt gofynnol ond nid yw hyn yn cael ei gofnodi gan unrhyw broses casglu data."* (Uwch Nyrs Ymweliadau Iechyd)

6.38 Ar y llaw arall, y casgliadau yn un o'r grwpiau ffocws oedd bod cwblhau'r isafswm o gysylltiadau yn her a bod yr amserlen bresennol efallai yn afrealistig.

6.39 Cafodd y FRAIT[19] ei nodi fel un o ddiffygion Rhaglen Plant Iach Cymru ymysg ymatebwyr i'r arolwg a chyfranogwyr grwpiau ffocws. Dywedodd un ymwelydd iechyd: *"… mae'n ymwthiol ac mae'n tanseilio dyfarniad gweithiwr proffesiynol."* (Ymwelydd iechyd cyffredinol). Nodwyd hefyd fod cwblhau'r offeryn yn amhosibl yn ystod ymweliad rhithiol â rhieni.

6.40 Er gwaethaf buddsoddiad yn Rhaglen System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)[20] ac ymgeisiau i gynyddu cydweithio trwy raglenni fel Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, roedd ymarferwyr yn awgrymu bod angen o hyd i wella cydweithio a rhannu data ymysg y rheini sy'n gweithio o fewn blynyddoedd cynnar (er enghraifft rhwng iechyd a gwasanaethau plant) i ganiatáu ar gyfer pontio llyfnach rhwng gwasanaethau: *"… Mae popeth yn eithaf tameidiog ac yn anodd cael atynt."* (Swyddog Gofal Plant, Dechrau'n Deg)

6.41 Roedd ymarferwyr yn argymell newid y ffordd y caiff y rhaglen ei monitro a'i gwerthuso, ee symud oddi wrth Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau, a awgrymwyd nad yw'n mesur canlyniadau sy'n cyfrif i deuluoedd: *"gellir dadlau nad ydynt yn mesur newidiadau yn iechyd y boblogaeth yn dda. Dylid rhoi llai o bwyslais ar faint o gysylltiadau a gyflawnir a chanolbwyntio ar ba wahaniaethau o wnaethom mewn gwirionedd i deuluoedd."* (Ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg)

6.42 Teimlai amryw o ymarferwyr fod angen i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhieni am y rhaglen a'r hyn mae'n ei gynnig – ac yn allweddol yr hyn nad yw'n ei gynnig.

6.43 Roedd newidiadau eraill na awgrymwyd neu leoedd i wella neu'u haddasu a grybwyllwyd gan niferoedd bach o ymatebwyr yn cynnwys:

- Symud oddi wrth ganolbwyntio ar ddiffygion: *"Mae gan Blant Iach Cymru bwyslais di-fudd ar yr hyn nad yw plentyn yn ei wneud ac mae hyn yn rhoi'r rhaglen yn groes i'r ymyraethau sy'n canolbwyntio ar rymuso, cydnerthedd a derbyn gwahaniaeth."* (Therapydd Lleferydd ac Iaith)
- Sicrhau nad yw cysylltiadau yn dod yn 'ymarferion ticio blychau': *"Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn dda yn ei hanfod a'r isafswm cysylltiadau*

---

[19] Offeryn asesu cydnerthedd teuluoedd - Family Resilience Assessment Instrument and Tool.
[20] Cofnod Digidol Gofal Cymdeithasol

*mae'n ei ddarparu. Fodd bynnag, teimlaf fod ymarferwyr wedi dod yn fwy dibynnol ar restr wirio o'r hyn sy'n rhaid rhoi sylw iddo mewn cyswllt … gall hyn olygu bod rhai ymarferwyr nad ydynt bob amser yn cael y sgwrs ynghylch anghenion cyfannol y teulu … sy'n arbennig o wir am ymarferwyr iau, mwy amhrofiadol."* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar)

6.44 Mae'n werth nodi bod pedwar o ymatebwyr i'r arolwg wedi dweud na fyddent yn newid dim byd ynglŷn â Rhaglen Plant Iach Cymru: *"Nid yw'n diwallu'r anghenion yn llawn, ond nid ar gyfer hynny mae hi wedi ei llunio. Mae hi yno i fonitro twf a datblygiad a chaiff ei defnyddio wedyn fel fframwaith ar gyfer Ymwelwyr Iechyd i wneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol at y gwasanaethau a ALL ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw."* (Therapydd Iaith a Lleferydd)

6.45 Yn ogystal, roedd llawer o academyddion a gyfrannodd at Gam 1 yr astudiaeth yn eirioli'r angen am gymorth cyfannol i bobl teulu a phlant bach, wedi ei seilio ar gyffredinoliaeth gynyddol er mwyn sicrhau bod cymorth yn gymesur â graddau'r angen, sef egwyddor sylfaenol Rhaglen Plant Iach Cymru. Awgrymwyd bod y pandemig wedi cynyddu anghydraddoldebau a oedd yn bod eisoes, gan wneud yr egwyddor hon yn bwysicach fyth.

6.46 Yn gyffredinol, ymddengys fod cefnogaeth gyffredinol i barhad Rhaglen Plant Iach Cymru, er bod hyn gyda rhai mân addasiadau a chan bwysleisio hefyd fod cyflawni'r rhaglen yn ddibynnol ar fynd i'r afael â'r argyfwng presennol yn y gweithlu.

**Magu plant. Rhowch amser iddo**


6.47 Roedd yr ymarferwyr hynny a oedd yn gwybod am y rhaglen *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn ei gweld fel ffynhonnell ddibynadwy o gyngor gwerthfawr i rieni yn y blynyddoedd cynnar[21]. Dengys yr arolwg o ymarferwyr fod bron i hanner yr ymatebwyr yn gyfarwydd iawn neu'n weddol gyfarwydd â'r rhaglen. Fodd bynnag, awgryma'r ymchwil ansoddol y gall fod gan rieni a gofalwyr lawer llai o ymwybyddiaeth o'r rhaglen, a dengys y byddai hyrwyddo a marchnata pellach ledled Cymru yn fuddiol. Er bod rhai ymarferwyr yn galw am hyrwyddo *Magu plant. Rhowch amser iddo* i'r sector cyfan (yn ogystal â theuluoedd), amlygwyd lleoliadau gofal plant nas cynhelir fel targedau neilltuol o bwysig ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Roeddent hefyd yn cydnabod y rôl allweddol mae ymarferwyr yn ei chwarae wrth amlygu *Magu plant. Rhowch amser iddo* i deuluoedd, gan y byddai fel arall yn cael ei gweld fel 'adnodd neis ar-lein na fydd rhieni byth yn ei ddarllen'.

6.48 O ran cynnwys *Magu plant. Rhowch amser iddo,* teimlai mwy na naw o bob deg o ymatebwyr (91 y cant) a ymatebodd i'r arolwg fod yr adnodd yn ei ffurf bresennol yn

[21] Ystod oedran Magu plant. Rhowch amser iddo yw 0-18 oed.

diwallu anghenion plant a theuluoedd yn llawn (29 y cant) neu'n rhannol (62 y cant) wedi'r pandemig. Dangosir y canlyniadau hyn yn Ffigur 6.3 isod.

**Ffigur 6.3: I ba raddau mae Magu plant. Rhowch amser iddo yn ei ffurf bresennol yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig?**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y Sail: 79*

6.49 Mae gwybodaeth a ddeilliodd o'r cyd-drafod ansoddol yn pwysleisio gwerth yr adnodd i'r rheini sy'n gwybod amdano, gyda sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o gynnwys wedi ei ddiweddaru, yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o fformatau. Roedd un ymarferydd yn gofyn am ganllawiau integreiddio a'r arferion gorau ar faterion ôl-bandemig wrth i dystiolaeth yr ymchwil ddatblygu, ac roedd trafod sylweddol ynghylch yr angen i ddarparu'r adnoddau ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddulliau dysgu. Y farn oedd bod y llenyddiaeth a ddarparwyd trwy Magu plant. Rhowch amser iddo yn ddefnyddiol, ond nodwyd efallai na fyddai'r rheini sydd â heriau llythrennedd yn gallu manteisio arno ac nad yw taflenni'n cyrraedd rhieni/gofalwyr bob amser gan 'eu bod yn aros ym mag y plentyn'. Roedd rhai ymarferwyr yn gofyn am ei ddosbarthu wyneb yn wyneb ac yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio'r adnodd ar *"bobl go-iawn, sefyllfaoedd go-iawn! … gan ei fod*

*weithiau'n teimlo 'ar wahân' yn enwedig pan gaiff ei gyflwyno'n ddigidol."* (Nyrs / Gweithiwr proffesiynol gofal iechyd). Roedd ymarferwyr yn galw am fwy o gynnwys sain-fideo, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, ac yn cydnabod y gall fod angen i ymarferwyr gynorthwyo teuluoedd i gael at yr adnoddau ar-lein.

6.50 Roedd rhai ymarferwyr yn awgrymu mai'r ffordd orau o ddefnyddio *Magu plant. Rhowch amser iddo* oedd i helpu ymarferwyr i gyd-drafod â rhieni a theuluoedd agored i niwed, yn hytrach nag i rieni ddefnyddio'r adnodd eu hunain. Mewn un grwp ffocws, roedd ymarferwyr yn awgrymu y gellid defnyddio *Magu plant. Rhowch amser iddo* gan weithwyr chwarae yn rhyngweithiol gyda rhieni mewn ffordd debyg i'r sesiynau lleferydd, iaith a chyfathrebu mae teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn eu derbyn. I gefnogi hyn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno (34 y cant) neu'n cytuno'n gryf (25 y cant) gyda'r datganiad fod *"effeithiolrwydd Magu plant. Rhowch amser iddo ac adnoddau ar-lein ehangach yn ddibynnol ar fod personél ar gael i helpu defnyddwyr drwyddo."* Dim ond un y cant o ymatebwyr oedd yn anghytuno'n gryf gyda'r gweddill yn niwtral ar y datganiad.


6.51 Yn olaf, roedd ymatebwyr yn dymuno gweld gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn sefydlu ac integreiddio *Magu plant. Rhowch amser iddo* i'w gwasanaethau yn fwy cyson.

**Siarad Gyda Fi: Cynllun gweithredu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

6.52 Cafodd Siarad Gyda Fi a'r hyfforddiant cysylltiedig a ddarparwyd i ymarferwyr blynyddoedd cynnar eu croesawu'n gyffredinol. Fel y dangoswyd gan ganlyniadau'r arolwg isod (Ffigur 6) a'u hadlewyrchu yn y cyd-drafod ansoddol, roedd cynllun Siarad Gyda Fi yn cael ei weld fel un a oedd i raddau helaeth yn diwallu anghenion cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu plant sydd â phroblemau lleferydd, iaith a chyfathrebu 'byrhoedlog'. Roedd cydnabyddiaeth gan rai ymarferwyr nad yw'r cynllun wedi cael ei lunio i ddatrys pob problem lleferydd, iaith a chyfathrebu nac i ymdrin â'r rhai sydd angen cymorth arbenigol. Roedd yr ychydig iawn o academyddion a oedd yn ymwybodol o Siarad Gyda Fi yng Ngham 1 hefyd wedi cael argraffiadau da o'r rhaglen ond nid oeddent yn gwybod am dystiolaeth i ddangos ei heffaith.

6.53 Y consensws mewn dau grŵp ffocws o ymarferwyr oedd bod negeseuon iechyd cyhoeddus Siarad Gyda Fi yn rhan werthfawr o'r agenda ataliol ac y dylid ei barhau. Roedd un ymarferydd yn gwerthfawrogi'n benodol y ffordd roedd yn cyfrannu fframwaith i'r gweithlu lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan amlinellu anghenion, amcanion, a llwybrau hyfforddi ac yn awgrymu bod hyn yn hwyluso cysondeb wrth ddarparu ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd eraill yn llai cadarnhaol ac yn mynegi pryderon fod anghysondeb posibl yn y ffordd mae awdurdodau lleol yn gweithredu cynllun Siarad Gyda Fi.

**Ffigur 6.4: I ba raddau mae Siarad Gyda Fi: cynllun gweithredu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig?**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y Sail: 126*

6.54 Roedd rhai ymarferwyr yn mynegi'r angen am ganolbwyntio'n gryf ar leferydd, iaith a chyfathrebu o fewn ecosystem iechyd cyhoeddus. Roedd llawer yn galw ar i Siarad Gyda Fi gael ei sefydlu a'i integreiddio'n well i wasanaethau blynyddoedd cynnar, gydag angen i sicrhau cydgordio rhwng canllawiau Siarad Gyda Fi a rhaglenni eraill megis Dechrau'n Deg. Gan y gall y rhaglen ymwneud ag amrywiaeth o rolau staff blynyddoedd cynnar ac y gall awdurdodau lleol amrywio wrth weithredu Siarad Gyda Fi, y farn oedd y byddai canllawiau wedi eu haddasu ar gyfer pob math o rôl yn ychwanegiad pwysig.

6.55 Roedd rhai ymarferwyr yn galw hefyd am i Siarad Gyda Fi gael ei hyrwyddo'n well i ymarferwyr a theuluoedd trwy Facebook, meddygfeydd teulu, lleoliadau gofal plant, a gwefannau byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod 74 y cant o ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi dangos eu bod yn gyfarwydd iawn (41 y cant) neu'n weddol gyfarwydd (33 y cant) â'r polisi, a oedd yn ail i Dechrau'n Deg yn

unig o safbwynt pa mor gyfarwydd oedd ymarferwyr gyda'r prif raglenni a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn[22].

6.56 O ran sut y caiff Siarad Gyda Fi ei weithredu, roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar hygyrchedd ac adnoddau i rieni a gofalwyr, gyda galwadau am fwy o ganllawiau sy'n anelu'n bodol at rieni. Er mwyn gwella mynediad rhieni a gofalwyr at wasanaethau arbenigol lleferydd, iaith a chyfathrebu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu unrhyw gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn lleoliadau gofal plant, awgrymwyd y byddai darparu y tu allan i oriau gwaith yn ddefnyddiol. Roedd rhai yn galw hefyd am gyflwyno wyneb yn wyneb ychwanegol ledled Cymru, er enghraifft yn ffurf sioeau teithiol neu mewn llyfrgelloedd lleol. Cydnabuwyd y byddai angen cyllid ychwanegol i wneud hyn. Cafodd darparu canllawiau lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn mwy o ieithoedd a threfnu bod adnoddau Siarad Gyda Fi ar gael mewn fformat ap eu hawgrymu fel dewisiadau i wella hygyrchedd. Yn ogystal, roedd un ymarferydd yn tanlinellu'r angen i helpu gwarchodwyr plant i ddarparu cymorth lefel isel lleferydd, iaith a chyfathrebu gan ddefnyddio adnoddau Siarad Gyda Fi mewn achosion lle maent yn amlygu materion lleferydd, iaith a chyfathrebu wrth deuluoedd, ond "yn canfod y llwybr at weithwyr proffesiynol iechyd yn cael ei rwystro." (Gwarchodwr plant)

6.57 Er bod Siarad Gyda Fi yn cael ei ystyried fel cynllun defnyddiol gan lawer o weithwyr proffesiynol, roedd rhai yn gofyn hefyd am i'w gynnwys fod yn fwy unigolyddol ac yn gofyn am fwy o gynnwys sy'n gysylltiedig ag anghenion cymhleth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roedd un ymarferydd yn awgrymu darparu strategaethau i rieni gyfathrebu gyda phlant nad ydynt eto'n gallu cynhyrchu lleferydd, yn ogystal ag i blant ar ben hŷn yr ystod oedran blynyddoedd cynnar a all wynebu heriau lleferydd, iaith a chyfathrebu tebyg fel plant bach.

6.58 Fel gyda pholisïau a rhaglenni eraill, amlygwyd staffio fel mater pwysig wrth weithredu Siarad Gyda Fi. Mewn perthynas â'i gynllun gweithredu yn benodol, roedd galwadau am ddarparu mwy o hyfforddiant ar leferydd, iaith a chyfathrebu ar draws y sector a threfnu bod cyllid hirdymor ar gael i leihau trosiant a chaniatáu ar gyfer parhad cymorth: 'ni fydd *one-offs* yn gweithio yma'. Crybwyllwyd angen penodol gan academyddion ac ymarferwyr am fwy o therapyddion lleferydd ac iaith, gan fod prinder ar hyn o bryd. Teimlai ymarferwyr fod yn rhaid i hyn fod law yn llaw â chyllid i leihau amserau aros am gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a darparu ymateb graddedig cynhwysfawr lle addewir hynny. Yn ogystal, dylai unrhyw hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu a ddarperir ar draws y sector ddod law yn llaw â chymorth ar gyfer trefnu'r hyfforddiant hwn, gan y gall hyn fod yn heriol i staff yng

---

[22] Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r gyfran uchel o weithwyr proffesiynol lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwblhaodd yr arolwg (11 y cant o holl ymatebwyr yr arolwg).


nghyd-destun trosiant uchel, yn ôl ymarferwyr ac academyddion yn nau gam yr ymchwil.

6.59 Yn olaf, roedd ymarferwyr yn amlygu'r angen am well modd o ddogfennu canfyddiadau ac asesu angen lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fel y trafodwyd yn yr adran thematig ar leferydd, iaith a chyfathrebu uchod, mae WellComm yn adnodd a ddefnyddir yn gyffredin, ond roedd gan ymarferwyr ac academyddion ddiddordeb mewn datblygu a hyrwyddo offerynnau eraill i'w ddefnyddio ar gyfer sgrinio ac adnabod y dulliau mwyaf effeithiol. Awgryma hyn y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr o'r adolygiad o'r offerynnau presennol ar gyfer sgrinio iaith gynnar (Llywodraeth Cymru, 2022) a fwriadwyd i ddarparu tystiolaeth fel sail ar gyfer datblygu dull sgrinio sy'n addas i boblogaeth Cymru. Mae 'Prosiect Pengwin' bellach ar y gweill i ddatblygu dull cadw gwyliadwriaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n unswydd a dwyieithog ar gyfer Cymru.

**Polisïau Llywodraeth Cymru ac iddynt y nod o liniaru'r niwed sy'n codi o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

6.60 Datgelodd ymatebion gan ymarferwyr i'r arolwg fod 19 y cant o ymatebwyr yn cytuno bod polisi presennol Llywodraeth Cymru sy'n anelu at liniaru'r niwed o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn llawn (Ffigur 6.5). Roedd 62 y cant o ymatebwyr yn cytuno bod anghenion plant a theuluoedd yn cael eu diwallu'n rhannol.

**Ffigur 6.5 I ba raddau mae dulliau polisi Llywodraeth Cymru ac iddynt y nod o liniaru'r niwed sy'n codi o drawma plentyndod yn diwallu anghenion plant a theuluoedd wedi'r pandemig?**




*Ffynhonnell: Arolwg Ôl-bandemig Blynyddoedd Cynnar Miller Research 2023*

*Maint y Sail: 108*

6.61 O gymharu â rhai o feysydd y rhaglenni eraill, ychydig oedd gan ymarferwyr i'w ddweud am bolisïau ac iddynt y nod o liniaru Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod, efallai oherwydd eu bod yn cael eu gweld yn fwy fel thema drawsbynciol y mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol ohoni wrth weithredu unrhyw raglen neu ymyrraeth. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn siarad am werth y Cwricwlwm i Gymru wrth gyfreithloni dull dysgu seiliedig ar chwarae a all hefyd fod yn effeithiol wrth

liniaru'r trawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd dysgu seiliedig ar chwarae yn cael ei ganmol yn fawr am helpu gwella cydnerthedd plant, ac yn enwedig annog plant i chwarae mewn senarios i ddeall eu profiadau a'u trawmâu eu hunain yn well. Roedd staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cefnogi plant a ddioddefodd brofiadau niweidiol yn eu plentyndod yn awgrymu bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol i'w datblygiad proffesiynol ac wedi cael effaith sylweddol ar y plant maent yn eu cefnogi. Roedd amryw o ymatebwyr i'r arolwg yn argymell y dylid canolbwyntio mwy ar hyfforddi ymarferwyr ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

6.62 Yn ystod trafodaethau mewn grwpiau ffocws ymarferwyr, awgrymwyd bod y pandemig wedi newid cyd-destun yr agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Yn ogystal â'r amheuaeth fod cynnydd wedi bod yng nghyfanswm y plant a brofodd Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, mae gallai proffil y plant hynny fod wedi newid hefyd. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn dweud bod plant o gefndiroedd cymharol sefydlog a llewyrchus yn debygol o fod wedi bod yn fwy agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod nag y byddent fel arall ac wedi profi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Roeddent yn dweud ei bod yn bwysig felly edrych y tu hwnt i'r Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gwreiddiol a gafodd eu diffinio cyn y pandemig a chydnabod y gallant fod ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi y bydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, oherwydd eu natur, yn cymryd blynyddoedd lawer i ddod i'r amlwg, oherwydd yn aml, edrychir ar eu presenoldeb (neu beidio) yn ôl-weithredol.

6.63 Yn fwy cyffredinol, roedd gan rai ymarferwyr bryderon ynghylch y derminoleg sy'n gysylltiedig â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r ffaith ei fod fel cysyniad yn troi o gwmpas diffygion ac yn groes i agweddau eraill o bolisi blynyddoedd cynnar yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar asedau (er enghraifft Rhaglen Plant Iach Cymru). Oherwydd yr heriau eithafol a wynebwyd yn ystod y pandemig a'r cynnydd yn heriau ymddygiadol plant, roedd rhai ymarferwyr yn bryderus fod y polisi ar hyn o bryd yn rhy simplistig, ac felly'n agored i gamddehongli a dryswch. Mewn un grŵp ffocws, roedd ymarferwyr yn feirniadol nad oes, hyd yn oed pan fo Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cael eu hadnabod yn gywir, yr adnodd i ddarparu cymorth addas i'r plentyn.

**System Anghenion Dysgu Ychwanegol**

6.64 Ymysg ymatebwyr i'r arolwg roedd 56 y cant yn gyfarwydd iawn â'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac roedd 35 y cant yn weddol gyfarwydd.

6.65 Pan ofynnwyd am eu barn ynghylch pa mor dda mae'r system ADY yn diwallu anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol wedi'r pandemig, roedd ymatebion yn gymysg iawn. Atebodd deg ymatebydd (allan o'r 90 a atebodd y cwestiwn hwn)

‘da iawn’ neu eiriau’n cyfleu’r un peth, tra bod eraill wedi rhoi adborth mwy negyddol. Roedd rhai ymarferwyr yn canmol y ‘dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’ ac yn awgrymu bod y system ADY yn *“welliant anferthol ar yr hen system AAA”* (Prif Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar). Roedd eraill yn cydnabod bod y system yn dal yn gymharol newydd ond ei bod yn *“dechrau datblygu trefn ac mae ymarferwyr yn deall y rolau a’r cyfrifoldebau o dan y ddeddf* [sic]”. (Rheolwr Awdurdod Lleol)

6.66 Roedd ymarferwyr yn nodi bod, wedi’r pandemig, gynnydd mawr mewn plant yn cael eu cyflwyno fel rhai ag ADY, gan arwain at system ADY yn cael ei gorymestyn a phlant yn aros yn hirach i dderbyn cymorth. Gwnaeth llawer o ymarferwyr y pwynt fod hyn yn adlewyrchiad ar y galw yn hytrach nag ar y system newydd fel y cyfryw. Fel gyda llawer o’r rhaglenni blynyddoedd cynnar a gynhwysir yng nghwmpas yr ymchwil hwn, y farn oedd bod cyllid cyfyngedig a diffyg staff yn tanseilio effeithiolrwydd y system ADY.

6.67 Her arall a adroddwyd am y system ADY yw ei bod *“yn rhoi’r pwyslais yn ôl i raddau helaeth iawn ar yr ysgolion/darparwyr addysg i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer y plant yn eu gofal”* (Seicolegydd Addysgol Cynorthwyol). Roedd yr un ymatebydd yn awgrymu *“nad oes gan staff addysg o angenrheidrwydd yr wybodaeth arbenigol na’r adnoddau i allu gwneud hyn yn effeithiol, ac yn enwedig o fewn cyd-destun gorfod cyflwyno’r cwricwlwm i’r gweddill o ddysgwyr yn eu gofal”.* O ganlyniad, mae ysgolion yn ddibynnol ar gymorth arbenigol gan, er enghraifft, therapyddion galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd, seicolegwyr addysgol a gwasanaethau cwnsela, ond nid oes capasiti digonol i ddiwallu’r galw. Golyga hyn fod ysgolion yn troi dysgwyr ymaith oherwydd difrifoldeb eu ADY, yn ogystal â phryderon na fyddai’r ysgol yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf ADY. Dywedodd un ymatebydd i’r arolwg:

> *“… mae disgwyl bellach i ysgolion cynnal cymorth i blant, ond heb y cyllid i wneud hynny, sy’n creu cylch o elyniaeth rhwng yr ysgolion, y rhieni a’r Cyngor Sir.”* (Swyddog Cymorth Partneriaeth Gofal Plant, Dechrau’n Deg)

6.68 Roedd ymarferydd arall yn awgrymu bod angen gwell cysylltiadau rhwng ysgolion a thimau blynyddoedd cynnar, er mwyn sicrhau parhad mewn gwybodaeth a chymorth:

> *“Nid ymddengys fod llif parhaus o gymorth i blentyn sydd wedi bod yn derbyn cymorth mewn lleoliad. Caiff y plant hyn eu gadael i fynychu ysgol heb gymorth ac atgyfeiriadau ac wedyn maen nhw’n gorfod dechrau o’r dechrau eto, a dw i’n teimlo bod hyn yn rhoi gwaith ychwanegol ar yr athrawon ac yn colli’r holl waith rydym wedi’i wneud gyda’r plant hyn yn y lleoliad.”*
> (Ymarferydd Gofal Plant)

6.69 Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu y gall y system, o safbwynt rhieni, fod yn anghyson o ran y cymorth a gynigir rhwng gwahanol leoliadau ysgol a'i bod yn peri dryswch difrifol: *"Dw i'n meddwl bod gormod o jargon yn cael ei ddefnyddio o'u cwmpas a bod rhieni yn teimlo 'allan o'u dyfnder' yn y cyfarfodydd hyn".* Roedd ymarferydd arall yn awgrymu: *"Mae'n dal i fod yn broses sy'n teimlo'n fygythiol i deuluoedd"* (Rheolwr Awdurdod Lleol).

6.70 Awgrymwyd bod rhieni yn ei chael yn anodd deall yr hawliau sydd gan eu plentyn o dan y Ddeddf ADY a bod angen mwy o gymorth arnynt i weithio drwy'r system, oherwydd ei chymhlethdod. Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod rhieni yn aml yn cael eu hymylu neu eu hanwybyddu yn y broses o ganfod cymorth addas i'w plentyn a bod rhai rhieni yn 'colli'r awydd i ymgeisio am gynllun datblygu unigol' oherwydd nad ydynt yn deall eu hawliau. Mae hyn yn arbennig o wir am rieni sydd â phroblemau iechyd meddwl, sgiliau gwael mewn llythrennedd ac iaith, neu lefelau isel o hyder.

6.71 Roedd ymatebydd arall yn awgrymu bod gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn gyffredinol dda am ganfod a chefnogi ADY sy'n dod i'r amlwg a hwyluso pontio da i'r ysgol, ond fod *"hyn yn ymddangos fel pe bai'n ymddatod wedyn pan fo'r plant hynny yn dechrau yn yr ysgol. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gennym ac yn teimlo fod popeth yn 'frwydr' yn yr ysgol. Rydym yn aml yn cael rhieni'n cysylltu â ni yn llawn gofid gyda sefyllfa'r ysgol"* (Ymarferydd Gofal Plant)

6.72 Ar y llaw arall, awgrymwyd bod gan rieni syniad afrealistig o'r hyn mae ganddynt hwy a'u plentyn hawl iddo o dan y system ADY: *"Mae angen am well eglurder nad yw rhieni'n cael hawl awtomatig i ofal plant a ariennir drwy holl daith eu plentyn a bod y cod yn berthnasol i'w Haddysg ac nid pob agwedd o'u bywyd gan gynnwys darpariaeth gwyliau arbenigol am ddim i bob plentyn sydd ag ADY drwy gydol pob gwyliau ysgol"* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar). Roedd ymatebydd arall yn awgrymu bod tueddiad i rieni 'adnabod' 'symptomau ymddangosiadol o ASD ac ADHD' ac wedyn meddwl bod hyn yn golygu'n 'awtomatig fod ganddyn nhw ADY'. Teimlai un arall eto nad yw'r diffiniad o ADY yn cael ei ddeall yn ddigon da gan rieni, gan grybwyll yr enghraifft *"nad oes gan blentyn sydd ag anghenion iechyd anghenion dysgu ychwanegol hefyd o angenrheidrwydd"* (Cyn Therapydd Lleferydd)

6.73 Er mwyn ymdrin â rhai o'r materion hyn mewn perthynas â rhieni plant sydd ag ADY, roedd ymarferwyr yn awgrymu bod rhieni'n cael mwy o gymorth trwy broses unrhyw ddiagnosis, mwy o wybodaeth a chyngor ar, er enghraifft, 'patrymau cwsg [a] thechnegau megis rhyngweithio dwys (Intensive Interaction)[23]' tra eu bod yn disgwyl am ddiagnosis a hefyd cymorth i rieni plant NAD ydynt yn niwroamrywiol ond sy'n

[23] Intensive Interaction Institute

dangos ymddygiad heriol, er mwyn sicrhau y gall y system ADY ganolbwyntio ar blant sydd angen cymorth arbenigol.

6.74 Awgrymwyd bod ar staff ysgolion prif ffrwd angen uwchsgilio mewn strategaethau i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY (yn enwedig yn wyneb y broblem a nodir uchod ym mharagraff 6.66 ynghylch dibyniaeth anymarferol ar gymorth arbenigol allanol). Dywedwyd hefyd *“nad yw defnyddio staff asiantaethau i gefnogi’r plant mwyaf bregus yn dderbyniol”* (Ymarferydd Gofal Plant).

6.75 Codwyd pryder hefyd ynghylch cymorth ADY i blant Cymraeg eu hiaith, oherwydd y graddau cyfyngedig roedd gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arwain yn aml at blant o gartrefi Cymraeg yn gorfod derbyn cymorth ADY drwy gyfrwng y Saesneg.

6.76 Yn gyffredinol, ymddengys fod ymarferwyr yn dal i ganfod y system ADY gymharol newydd fel gwelliant ar yr hyn oedd yn ei rhagflaenu, ond teimlant fod rhai agweddau o’r hyn sy’n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud (o dan y Ddeddf) sy’n afrealistig a/neu yn rhy haearnaidd.

**Cwricwlwm i Gymru**

6.77 Rhwng 2010 a 2022 mae plant tair i saith mlwydd oed yng Nghymru wedi cael eu haddysgu trwy gwricwlwm statudol, seiliedig ar chwarae, y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015). Cyn cychwyn yn yr ysgol yn statudol, mae gan blant tair a phedair oed hawl i leoliad addysg feithrin rhan-amser, gyda darpariaeth gwarantedig o ddeg awr yr wythnos o leiaf ar ôl eu trydydd penblwydd. Roedd cyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022 yn disodli’r Cyfnod Sylfaen ond mae’n parhau ac yn adeiladu ar lawer o’r cysyniadau allweddol o’r rhaglen gynharach, gan gynnwys y pwyslais ar ddysgu drwy brofiad.

6.78 Dengys data o Gam 2 ymwybyddiaeth gref o’r Cwricwlwm i Gymru yn y sector blynyddoedd cynnar, gyda dros 80 y cant o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gyfarwydd iawn (42 y cant) neu’n weddol gyfarwydd (bron i 39 y cant) ag ef. Adlewyrchir yr ymwybyddiaeth hon yn y swm mawr o adborth ansoddol ar gryfderau a gwendidau’r cwricwlwm newydd, o fewn cyd-destun blynyddoedd cynnar. Roedd trafodaethau mewn grwpiau ffocws ymarferwyr hefyd yn cynnwys rhywfaint o adborth ar y Cwricwlwm i Gymru, er bod hyn mewn llai o ddyfnder nag oedd ar gyfer rhai o’r rhaglenni eraill. Roedd gan academyddion hefyd nifer cyfyngedig o sylwadau i’w gwneud ar y cwricwlwm newydd.

6.79 O’r ymatebwyr hynny i’r arolwg ymarferwyr a oedd ymwybodol iawn neu’n weddol ymwybodol o’r Cwricwlwm i Gymru, roedd llawer yn gadarnhaol eu hagwedd at pa mor dda mae’n diwallu anghenion dysgwyr blynyddoedd cynnar wedi’r pandemig, gyda deg o ymatebwyr yn dweud nad oes dim y byddent yn ei newid ynghylch y

cwricwlwm newydd. Roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r hyblygrwydd mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig, wrth alluogi ymarferwyr i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn: *"Mae'n ymwneud yn fwy â budd plant a'u llesiant"* (Ymarferydd Gofal Plant). Awgrymwyd bod hyn yn ei gwneud yn haws iddynt ennyn diddordeb plant a'u cynnwys yn fwy yn eu dysgu. Roedd rhai ymatebwyr yn disgrifio'r Cwricwlwm i Gymru fel 'naturiol', 'llai rhagnodol', 'ffres' a 'tryloyw'. Yn ogystal, roedd y pwyslais mae'r cwricwlwm newydd yn ei roi ar ddysgu trwy chwarae i ddysgwyr iau yn cael ei ystyried yn arbennig o addas gan academyddion ac ymarferwyr, wrth ganiatáu i ymarferwyr arsylwi plant a deall eu diddordebau ac anghenion unigol wrth iddynt ymwneud â 'phrofiadau naturiol, cynhenid'. Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg:

> *"Mae'n wych fod y cwricwlwm newydd yn caniatáu'r rhyddid i blant ddilyn eu diddordebau sydd wedi bod yn bwysig er mwyn i blant setlo ac adeiladu hyder mewn lleoliadau a sefydlu cwlwm agosrwydd gyda chyfoedion sydd â diddordebau tebyg."* (Rheolwr Meithrinfa)

6.80 Fel hyn, roedd ymarferwyr ac academyddion yn pwysleisio bod cael y cwricwlwm hwn i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn 'gam mawr ymlaen' i Gymru. Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg fod:

> *"cwricwlwm y sector nas cynhelir yn adlewyrchu'n briodol y syniadau diweddaraf ar gyfer addysgu plant yn y blynyddoedd cynnar a bod ganddo ethos gofalgar, meddylgar. Mae lleoliadau wedi adrodd eu bod yn hapus iawn gydag ef."* (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Awdurdod Lleol)

6.81 Er gwaethaf yr adborth cadarnhaol hwn gan ymarferwyr ac academyddion, roedd beirniadaeth ymysg academyddion 'nad oes llawer o waith dilynol', gyda lleoliadau nas cynhelir heb y gefnogaeth i gofleidio gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru yn yr un ffordd ag mae ysgolion wedi cael eu cefnogi. Roedd un academydd o dan yr argraff[24] fod, o gymharu â Lloegr a'r Alban, ddarpariaeth annigonol i blant o ddim i dair oed yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru.

6.82 Roedd llawer o ymarferwyr yn mynegi pryder bod, i blant sy'n nes at ddiwedd eu blynyddoedd cynnar, y Cwricwlwm i Gymru yn aml yn cael ei gamddehongli gan rai ysgolion lle mae pwyslais annigonol wedi bod ar y dull seiliedig ar chwarae a fwriadwyd fel ffordd o 'weithio trwy drawma a'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' a chefnogi camau cynnar datblygiad plentyn. Adleisiwyd hyn gan

[24] Mae hyn er gwaethaf fod y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wedi'i lunio ar gyfer plant 3-4 oed ac ymestyn y llwybrau dysgu i gynnwys 0-3 sy'n mynd law yn llaw â Fframwaith Ansawdd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

academyddion yng Ngham 2 a oedd yn mynegi pryder bod, erbyn Blwyddyn 1 a 2, ethos y dull dysgu seiliedig ar chwarae yn cael ei erydu, gydag ysgolion yn canolbwyntio ar gael dysgwyr yn barod am asesiad llythrennedd a rhifedd, yn lle pwysleisio datblygiad cyfannol a'r Chwe Maes o Ddysgu a Phrofiad. Mae'n werth nodi bod lleihau graddol dull y Cyfnod Sylfaen wrth i blant gamu ymlaen trwy'r blynyddoedd cynnar yn un o ganfyddiadau adroddiad Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen hefyd (Llywodraeth Cymru, 2015).

6.83 Roedd amryw o ymarferwyr yn feirniadol hefyd ynghylch y trefniadau asesu, gyda theimlad eu bod yn rhy ddibynnol ar wybodaeth a phrofiad athrawon unigol o ddatblygiad plentyn. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at rai plant yn cael eu 'colli'. Teimlai un ymatebydd fod "llawer iawn o bwyslais o hyd ar 'gyrhaeddiad' a disgwyliad fod plant ar gam 'normal' o ddatblygiad." Roedd un arall yn feirniadol eu bod yn *"dal i ddisgwyl am yr offerynnau asesu ar gyfer y sector nas cynhelir hyd at 3 oed flwyddyn ar ôl lansio'r cwricwlwm"* (Gwarchodwr plant) ac awgrymai y dylai'r cwricwlwm newydd fod wedi cael ei lansio yr un adeg â'r offerynnau asesu.

6.84 Yn ogystal, er bod canmoliaeth helaeth i hyblygrwydd y Cwricwlwm i Gymru ymysg rhai ymarferwyr, teimlai eraill y gallai'r rhyddid hwn i leoliadau weithredu'r cwricwlwm newydd fel y dymunant arwain at anghysondebau, problem a *"amlygwyd o'r blaen yn yr archwiliad annibynnol tymor byr o'r Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2014) ac adroddiadau Donaldson (Llywodraeth Cymru, 2015)*" (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar). Awgrymwyd er hynny hefyd fod yr hyblygrwydd hwn, mewn theori, yn caniatáu pawb o'r dysgwyr sydd ag anghenion gwahanol i elwa: *"Mewn lleoliadau prysurach gall fod yn anodd sicrhau bod anghenion pawb o'r plant yn cael eu diwallu wrth gynllunio"* (Ymarferydd Gofal Plant). Roedd ymarferwyr yn bryderus fod y cwricwlwm newydd yn dal wedi ei anelu tuag at 'blentyn stereoteipaidd' ac nad yw'n ystyried yn ddigonol y rheini sydd ag ADY, lefelau uchel o orbryder neu amgylchiadau teuluol anhrefnus.

6.85 Yn ogystal â'r safbwyntiau cymharol begynol hyn, teimlad ymarferwyr eraill oedd, o gofio mai yn weddol ddiweddar y cafodd y Cwricwlwm i Gymru ei lansio, ynghyd â'r ffaith y gellir dadlau bod effeithiau llawn y pandemig yn dal heb gael eu sylweddoli, bod angen mwy o amser i'r cwricwlwm newydd sefydlu ei hun cyn penderfynu pa mor dda mae'n diwallu anghenion dysgwyr blynyddoedd cynnar wedi'r pandemig.

6.86 Pan ofynnwyd iddynt pa newidiadau y byddent yn eu gwneud i'r Cwricwlwm i Gymru, soniodd tua deg y cant o ymarferwyr a atebodd y cwestiwn hwn am yr angen am fwy o ganllawiau ac eglurder ar ddisgwyliadau ynghylch asesu, diffyg roedd academyddion hefyd wedi ei nodi. Gofynnodd gwarchodwr plant, er enghraifft am *"ganllawiau ffurfiol ar beth ddylid ei asesu a sut."* Dywedodd ymatebydd arall fod arnynt angen *"fformat i ddangos cynnydd, gan nad oes gennym bellach asesiad*

*gosod"* (Ymarferydd Gofal Plant). Fodd bynnag, ymddengys fod y ceisiadau hyn yn gwrth-ddweud egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru sy'n ceisio symud oddi wrth ddulliau a thargedau ffurfiol tuag at ddull mwy arsylwadol.

6.87 Roedd ymatebydd arall eto yn cyfleu'r her ynghylch gweithredu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr gan ddarparu hefyd yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer meincnodi cynnydd, gan ofyn am:

> *"Mwy o help gydag asesu. Dw i'n gwybod bod yn rhaid i'r cwricwlwm fod yn unswydd, ond mae pawb yn rhuthro o gwmpas i wneud synnwyr o asesu nad yw'n fanwl, sy'n amwys iawn ac eto'n gwbl ddisgwyliedig."* (Athro)

6.88 Yn ogystal â chymorth gydag asesu yn benodol, dangosodd ymarferwyr angen am fwy o ganllawiau yn gyffredinol, gan gynnwys canllawiau ar brosesau cynllun a chyfleu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru i rieni yn ogystal fel enghreifftiau o arferion da ar waith. Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod ynghylch y lefelau cymharol is o gymorth gweithredu a roddir i'r sector nas cynhelir, awgrymai ychydig o ymatebwyr i'r arolwg fod angen i fonitro'r ffordd y caiff ei weithredu yn y sector nas cynhelir er mwyn osgoi 'dryswch ac anghysondeb'.

6.89 Roedd rhywfaint o alw am fwy o hyfforddiant ar gynnwys a chyflwyno'r cwricwlwm er mwyn lleihau gwahanol ddehongliadau a datblygu dealltwriaeth o'i egwyddorion allweddol a dull addysgegol. Er bod modiwlau hyfforddi ar y Cwricwlwm i Gymru ar gael i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ers mis Tachwedd 2021[25] (ac a ddiweddarwyd ym mis Awst 2022[26]), roedd ymarferwyr yn ymddangos fel pe baent i raddau helaeth mewn anwybodaeth o'r deunyddiau hyn a'u bod o dan yr argraff fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant wedi ei dargedu at ysgolion. Awgryma hyn fod angen mwy o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth fod y modiwlau hyn ar gael i leoliadau nas cynhelir.

6.90 Awgrymodd rhai ymarferwyr newidiadau i gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â blynyddoedd cynnar, gan gynnwys:

- Mwy o bwyslais ar bynciau galwedigaethol / dysgu nad yw mewn ystafell ddosbarth
- Cynnwys 'sgiliau sylfaenol', 'sgiliau bywyd' neu 'sgiliau byw' fel coginio, gwnïo, rheoli cartref, cyllidebu ac ennill gwaith cyflogedig.
- Integreiddio sgiliau meddalach fel adeiladu perthynas, hunan-ofal a chydnerthedd.
- Mwy o bwyslais ar 'ddysgu Saesneg sylfaenol a Mathemateg'

[25] Hwb - Adnoddau (gov.wales)
[26] Hwb – Adnoddau (gov.wales)

- Mwy o ganolbwyntio ar greadigrwydd: *“Dw i ddim yn meddwl bod celf, cerddoriaeth ayyb, (ac yn enwedig celf a cherddoriaeth Cymru) yn cael eu hannog.”* (Athro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar).

6.91 Yn olaf, gofynnodd ychydig o ymarferwyr am eglurder ar sut mae’r Cwricwlwm i Gymru yn cydgyfeirio â pholisi perthnasol arall, er enghraifft, y Ddeddf ADY ac egwyddorion arferion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ogystal â fframweithiau arolygu Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

# 7. Casgliadau ac ystyriaethau polisi

7.1 Fel y trafodwyd yn yr adran methodoleg, er gwaethaf rhywfaint o wrth-ddweud yn y farn a fynegwyd gan academyddion ac ymarferwyr, roedd rhywfaint o gonsensws hefyd ar faterion allweddol ynglŷn â blaenoriaethau polisi ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru wrth symud ymlaen at ddyfodol ôl-bandemig.

7.2 Mae hyn yn cynnwys egwyddorion ac argymhellion cyffredinol i'r sector yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â pholisïau a rhaglenni penodol.

## Argymhellion cyffredinol

7.3 Drwy gydol yr ymchwil, mater a bwysleisiwyd yn barhaus drwy bob cam o ymgynghori â rhanddeiliaid oedd yr angen i gynyddu cyflogau i staff sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar (roedd 78 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn ei raddio fel rhywbeth hanfodol, gyda 60 y cant yn ei ddewis fel un o'r tair blaenoriaeth uchaf ar gyfer polisi blynyddoedd cynnar yng Nghymru). Y farn oedd bod hyn yn arbennig o bwysig i'r sector gofal plant, lle'r oedd ymarferwyr yn mynegi rhwystredigaeth ar y gwerth isel canfyddedig (o leiaf o safbwynt ariannol) a roddir ar y rheini sydd â'r fath ddylanwad ar ddatblygiad a llwyddiant plentyn yn ddiweddarach yn ei fywyd. Y teimlad oedd y dylent gael eu talu'n well, neu o leiaf gymaint, â'r incwm cyfartalog i'r rheini sy'n gweithio yn y sector manwerthu (cymharydd a grybwyllwyd yn aml), o ystyried y lefelau uwch o straen a chyfrifoldeb.

7.4 Y farn oedd fod y diffyg blaenoriaeth a roddir i gynyddu cyflogau staff yn fater o bryder penodol, o gofio'r gwerth ar roddir ar y blynyddoedd cynnar gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, o safbwynt rhethreg a phwyslais polisi. Mae'n amlwg nad oes ateb hawdd i hyn, gyda ffactorau megis cost gofal plant a chymarebau gofynnol staff[27] i'w hystyried.

7.5 Mae ymdrin ag ystyriaethau gweithluoedd yn ymestyn y tu hwnt i lefelau cyflogau i gynnwys sicrwydd swyddi a'r effaith y gall hyn ei gael ar gyfraddau gadael staff. Mae galwad gref am gytundebau mwy hirdymor fel modd o wella'r graddau y cedwir staff. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn achos swyddi braenaru Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar a swyddi Dechrau'n Deg. Mae hyn yn ddibynnol ar gylchoedd mwy hirdymor o gyllid ar gyfer y rhaglenni hyn, a fydd hefyd yn caniatáu ar gyfer cyfnodau estynedig o weithredu, rhywbeth y teimlai llawer o ymarferwyr ei fod yn tanseilio braenarwyr Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn enwedig.

---

[27] Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio LLYW.CYMRU

7.6 Cafodd canolbwyntio mwy ar swm ac ansawdd hyfforddiant ei amlygu fel blaenoriaeth, a ddangoswyd gan y ffaith fod 71 y cant o ymatebwyr yr arolwg o'r farn fod cynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant staff blynyddoedd cynnar yn 'hanfodol'. Yn yr un modd, roedd 43 y cant yn ei ystyried ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf. Mae'n amlwg fod datblygu gwell cynnig hyfforddiant, yn enwedig o safbwynt galluogi ymarferwyr i fod yn fwy 'ystyriol o drawma', yn ogystal â hyfforddiant i gefnogi datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, ADY ac ASD yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth polisi.

7.7 Un canfyddiad clir o'r ymchwil yw'r angen i flaenoriaethu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y polisi blynyddoedd cynnar ar ôl y pandemig. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn yn debygol o adlewyrchu – yn rhannol o leiaf – y gyfran uchel o weithwyr proffesiynol lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwblhaodd yr arolwg. Roedd 85 y cant o ymatebwyr yn cytuno (40 y cant) neu'n cytuno'n gryf (45 y cant) fod ar ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar angen hyfforddiant penodol mewn mynd i'r afael â'r problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r canfyddiadau o'r astudiaeth yn awgrymu y bydd hyn yn gofyn am rywfaint o addasu i bolisi ac arferion presennol lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru, gan mai dim ond tua chwarter o ymatebwyr oedd yn cytuno (20 y cant) neu'n cytuno'n gryf (chwech y cant) fod polisi lleferydd, iaith a chyfathrebu Llywodraeth Cymru yn ddigonol i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a theuluoedd ar ôl y pandemig. Gallai'r camau i'w cymryd gynnwys, er enghraifft:

- Datblygu a defnyddio dull asesu mwy soffistigedig ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu (sef y tu hwnt i ddull presennol WellComm)
- Rhoi adnoddau digonol fel bod cynnig lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg ar gael i bawb ledled Cymru
- Darparu mwy o swm a safon uwch o hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu i'r gweithlu blynyddoedd cynnar (yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant nas cynhelir) gyda chymhellion i annog pobl i fanteisio arnynt
- Hyrwyddo Siarad gyda Fi yn well i ymarferwyr a theuluoedd trwy Facebook, meddygfeydd meddygon teulu, lleoliadau gofal plant a gwefannau byrddau iechyd
- Sicrhau parhad darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu y tu hwnt i wyth oed i flynyddoedd yr arddegau.

7.8 Thema gyffredin arall o fewn adborth gan ymarferwyr ac academyddion oedd pwysigrwydd chwarae, dysgu awyr agored a chymorth synhwyraidd i bob plentyn, ond yn enwedig i'r rheini sydd ag ADY neu blant a fernir fel rhai y mae'r pandemig a phrofiadau niweidiol cysylltiedig wedi effeithio fwyaf arnynt. Gall dysgu seiliedig ar

chwarae fod yn ffordd effeithiol i blant chwarae sefyllfaoedd i ddeall eu profiadau eu hunain yn well, gyda'r potensial o liniaru'r trawma sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gwella gwrthsafiad rhag profiadau niweidiol yn y dyfodol.

7.9 Mae galwad sylweddol ar Lywodraeth Cymru i symud oddi wrth 'ddull diffygion' sy'n gysylltiedig â pholisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar, ar ôl y pandemig. Mae'r pwynt hwn yn cyfeirio'n benodol at bolisi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, y bernir ei fod yn rhy simplistig, a'r pwyslais o fewn Rhaglen Plant Iach Cymru ar yr hyn y gall, neu na all, y plentyn ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar asedau a chryfderau. Teimlai cyfranogwyr ei bod yn hanfodol i lunwyr polisi edrych y tu hwnt i'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gwreiddiol a gafodd eu diffinio cyn y pandemig, a chydnabod y gall profiadau niweidiol fod yn llai amlwg a phenodol. Mae cydnabyddiaeth o'r farn hon ac o bwysigrwydd dull seiliedig ar gryfderau gan Lywodraeth Cymru (gweler Llywodraeth Cymru 2021b a Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru 2022) yn ffurfio rhan o ymdriniaeth polisi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni siaradwyd am hyn gan academyddion nac ymarferwyr, sy'n amlygu'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiad polisi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi'r pandemig yng Nghymru.

7.10 Yn gyffredinol, roedd y rheini a oedd yn ymwneud â'r astudiaeth ymchwil yn cefnogi'r pontio'n ôl at weithgarwch wyneb yn wyneb â phlant a theuluoedd lle'r oedd yn posibl, yn enwedig yng nghyd-destun ymwelwyr iechyd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o fewn canfyddiadau'r arolwg, lle mai dychweliad gweithgarwch wyneb yn wyneb oedd y trydydd dewis mwyaf poblogaidd pan ddeuai'n fater o ddewis y tair prif blaenoriaeth ar gyfer polisi blynyddoedd cynnar wedi'r pandemig.

7.11 Mae'n amlwg fod cynnydd i'w wneud o hyd o ran meithrin cydweithio agosach rhwng asiantaethau a gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gan fod 31 y cant o ymatebwyr o'r farn fod mwy o rannu gwybodaeth a'r arferion gorau wrth weithredu polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru ymhlith y tair blaenoriaeth uchaf ar gyfer blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Yn ogystal, roedd ychydig dros chwarter (26 y cant) o ymatebwyr o'r farn fod parhau i wella cydlynu rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg wrth weithredu polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth. Yn fwy penodol, mae angen am fwy o rannu data rhwng iechyd, addysg a gwasanaethau plant – sy'n her yng nghyd-destun y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) – yn ogystal ag ymwneud mwy â'r trydydd sector. Bu ychydig o gyfeirio yn yr ymchwil at System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac roedd rhanddeiliaid yn galw am yr angen am systemau rhannu data, a fyddai'n galluogi mynediad ar y cyd at ddata ar draws asiantaethau.

## Argymhellion ar gyfer rhaglenni penodol

7.12 Roedd rhai negeseuon cadarnhaol o'r astudiaeth hon ynghylch y canfyddiad fod polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yn ddigonol yng Nghymru. Teimlai mwy na phedwar o bob pump o ymatebwyr yr arolwg ymarferwyr fod pob rhaglen allweddol blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn diwallu'n llawn neu'n rhannol anghenion plant a theuluoedd. Yn achos Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, roedd y cyfrannau'n 90 y cant, 89 y cant ac 89 y cant yn y drefn honno. Yn ogystal, ac eithrio polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn achos yr holl raglenni hyn, teimlai o leiaf 23 y cant o ymatebwyr fod y rhaglen yn diwallu anghenion plant a theuluoedd yn llawn. O ystyried bod yr adborth hwn gan weithlu blynyddoedd cynnar sydd yn ôl ei gyfaddefiad ei hun (ac fel yr adroddwyd gan academyddion fu'n ymwneud â'r ymchwil hwn ac ymchwil anuniongyrchol arall) eu bod yn cael eu gorymestyn a'u hadnoddau'n annigonol, mae hwn yn ganlyniad calonogol.

7.13 Yn ogystal â meysydd ehangach datblygu a amlinellir yn yr argymhellion cyffredinol uchod, mae'r canfyddiadau o'r astudiaeth yn dangos yr angen am yr argymhellion canlynol ar gyfer rhaglenni penodol:

- Parhau gydag ehangu Dechrau'n Deg, ond ymestyn hyn i gynnwys gwella gwasanaeth ymwelwyr iechyd, cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a chymorth magu plant. Dylai hyn fod yn seiliedig ar angen.
- Dyrannu cyllid cymesur ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei lastwreiddio a'i fod yn parhau'n effeithiol.
- Cyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r ffenest bresennol o amser cyfyngedig o gymorth sy'n gymwys o dan Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn er mwyn cydnabod bod anghenion teuluoedd yn fwy cymhleth ac angen mwy o amser i ymdrin â hwy.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i symud polisi oddi wrth y canolbwyntio cul ar y profiadau niweidiol gwreiddiol yn ystod plentyndod, i un sy'n cydnabod bodolaeth ac effaith amrywiaeth llawer ehangach o ffynonellau posibl o brofiadau niweidiol a thrawma mewn plentyndod.
- Hyrwyddo ac annog ehangu Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd cynnar i bob rhan o Gymru, gan barhau i flaenoriaethu cydweithio agosach rhwng gwasanaethau blynyddoedd cynnar.

Ailgyflwyno rhannu'r arferion gorau yn rheolaidd rhwng ardaloedd Braenaru.[28]

- Ailedrych ar amserlen gysylltiadau Rhaglen Plant Iach Cymru wrth gydnabod capasiti (cyfyngedig) ymwelwyr iechyd a gwerth caniatáu i ymwelwyr iechyd ddefnyddio eu doethineb proffesiynol ynghylch pa gysylltiadau sydd eu hangen (sef mwy, neu o bosibl llai, na'r isafswm o 10)
- Archwilio ffyrdd mwy ystyrlon o fesur prosesau a chanlyniadau'r prif raglenni blynyddoedd cynnar yng Nghymru (yn enwedig Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru).

[28] Yn dilyn cyhoeddi cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, bydd cyllid ar gyfer Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn dod i ben ym mis Mawrth 2024. Bydd braenarwyr yn dal i gael eu cefnogi trwy gymorth anariannol yn ystod 2024-25 i'w helpu hwy i weithredu eu strategaethau gadael a, lle bo'n bosibl, prif ffrydio gweithgarwch treialu mewn busnes fel arferion rheolaidd.

## 8. Cyfeiriadau


Blynyddoedd Cynnar Cymru (2020) Prosiect Pengwin – Panel Cydgynhyrchu Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar Cymru. Ar gael ar: Prosiect Pengwin – Panel Cydgynhyrchu Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar Cymru

Fox, L., Bower-Crane, C., Lambrechts, A. A., Manzoni, C., Nielsen, D. a Tracey, L. (2021) Mitigating impacts of Covid19 in the Early Years, University of York and National Institute of Economic and Social Research

GIG Cymru (dim dyddiad) Cofnod Digidol Gofal Cymunedol. Ar gael ar: https://igdc.gig.cymru/cyfeiriadur-cynnyrch/ein-gwasanaethau-digidol/cofnod-digidol-gofal-cymdeithasol/

GL Assessment (2024) WellComm Support. Ar gael ar: WellComm Support

Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru (2022) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd. Ar gael ar: TCymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd

Intensive Interaction Institute (2023) Intensive Interaction - Fundamentals of Communication. Ar gael ar: Intensive Interaction - Fundamentals of Communication

Kelly, Y., Sacker, A., Del Bono, E., Francesconi, M. a Marmot, M. (2011) What role for the home learning environment and parenting in reducing the socioeconomic gradient in child development? Findings from the Millennium Cohort Study , *BMJ Journals*.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig COVID-19. Ar gael ar: Llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig COVID-19

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) Rhaglen Mesur Plant yn dangos cynnydd mewn plant â gordewdra. Ar gael ar: Rhaglen Mesur Plant yn dangos cynnydd mewn niferoedd o blant â gordewdra

Llywodraeth Cymru (2014) Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Ar gael ar: Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru

Llywodraeth Cymru (2015) Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: adroddiad terfynol. Ar gael ar https://www.llyw.cymru/gwerthusor-cyfnod-sylfaen-adroddiad-terfynol#content

Llywodraeth Cymru (2017a) Teuluoedd yn Gyntaf: canllawiau i awdurdodau lleol. Ar gael ar https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/teuluoedd-yn-gyntaf-canllawiau-i-awdurdodau-lleol.pdf

Llywodraeth Cymru (2017b) Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi. Ar gael ar https://www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi#content

Llywodraeth Cymru (2020) Grant Cymorth Tai. Ar gael ar https://www.llyw.cymru/grant-cymorth-tai#content

Llywodraeth Cymru (2021a) Astudiaeth Delphi i ddeall yr opsiynau sydd ar gael a fydd yn helpu i ganfod effaith COVID-19 ar blant o dan 5 oed, ymdrin â'r effaith honno neu ei lliniaru. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/astudiaeth-delphi-ar-effaith-covid-19-ar-blant-dan-5-oed#content

Llywodraeth Cymru (2021b) Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-polisi-ynghylch-profiadau-niweidiol-yn-ystod-plentyndod-adroddiad

Llywodraeth Cymru (2021c) Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-bolisi-llywodraeth-cymru-ar-brofiadau-niweidiol-yn-ystod#content

Llywodraeth Cymru (2021d). Credoau rhieni, ymddygiadau a rhwystrau: gofal plant ac addysg gynnar. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/credoau-rhieni-eu-hymddygiadau-ar-rhwystrau-y-maen-nhwn-eu-hwynebu-gofal-plant-ac-addysg-gynnar#content

Llywodraeth Cymru (2022) Gwerthusiad o Raglen Trawsnewid ac Integreiddio Blynyddoedd Cynnar. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-trawsnewid-ac-integreiddio-blynyddoedd-cynnar#content

Llywodraeth Cymru (2023) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed. Ar gael ar: Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

Mihas, Paul and Odum Institute (2019) Learn to Use an Exploratory Sequential Mixed Method Design for Instrument Development. Ar gael ar: Learn to Use an Exploratory Sequential Mixed Method Design for Instrument Development

NHS (2024) Get help to buy food and milk (the Healthy Start Scheme). Ar gael ar: Get help to buy food and milk (the Healthy Start Scheme)

NSPCC (2021) Delivering Pregnancy in Mind virtually during COVID-19: a process evaluation | NSPCC Learning. Available at: Delivering Pregnancy in Mind virtually during COVID-19: a process evaluation | NSPCC Learning

Save the Children (2016) Children In Wales Struggling In School | Save The Children. Ar gael ar: Children In Wales Struggling In School | Save The Children

Senedd Cymru (2021) Darllen rhwng y llinellau: Sgiliau llythrennedd plant Cymru. Ar gael ar https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/darllen-rhwng-y-llinellau-sgiliau-llythrennedd-plant-cymru/

Villadsen, A., Conti, G. a Fitzsimons, E. (2020) Parental involvement in home schooling and developmental play during lockdown – initial findings from COVID-19 survey. Centre for Longitudinal Studies, UCL.

# 9. Atodiadau

## Atodiad A – Polisïau / rhaglenni allweddol Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a gynhwysir yn yr astudiaeth hon[29]

### *Dechrau'n Deg*

Rhaglen wedi ei thargedu yw Dechrau'n Deg sydd ar gael i blant o dan bedair oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r nod o wella'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae wedi ei ffurfio o bedair elfen graidd, gan gynnwys: gofal plant rhan-amser wedi ei gyllido'n llawn i blant 2-3 oed; mwy o wasanaethau ymwelwyr iechyd (lle caiff llwyth achosion ymwelwyr iechyd ei gapio ar 110 o blant); cymorth magu plant, a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Cafodd Dechrau'n Deg ei threialu am y tro cyntaf yn 2006/07; yn 2007/08 daeth y rhaglen yn llwyr weithredol ar draws yr holl awdurdodau lleol ac mae cyfres o weithgarwch gwerthuso wedi cael ei gomisiynu ers hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel roedd ar y pryd. Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyhoeddiad cyntaf ac iddo'r teitl Gwerthusiad Ansoddol o Dechrau'n Deg (2009)[30] ac mae'n adrodd mai 'gofal plant yw'r gwasanaeth a ddefnyddir yn fwyaf helaeth'. Ers hynny, mae 17 o gyhoeddiadau pellach wedi cael eu cyhoeddi sy'n werthusiadau prosesau ac effaith yn bennaf. Mae'r cyhoeddiad mwyaf diweddar ym mis Chwefror 2021[31] yn dadansoddi canlyniadau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data cysylltiedig asesiadau sylfaenol gofal plant a'r Cyfnod Sylfaen yn Abertawe. Dengys y dadansoddiad 'wrth gymharu canlyniadau asesiadau ar fynediad plant a dderbyniodd ofal plant Dechrau'n Deg, roedd y rheini â phresenoldeb uwch yn tueddu i gyflawni eu deilliannau disgwyliedig ym mhob maes dysgu yn amlach na'r rheini â phresenoldeb is. Roedd y gwahaniaeth hwn rhwng y rhai â phresenoldeb uchel ac isel yn fwy fyth i blant oedd yn manteisio ar fwy o ddefnydd o'r cynllun'.

### *Teuluoedd yn Gyntaf*

'Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella'r ffordd mae gwasanaethau sy'n

cael eu darparu gan awdurdodau lleol i deuluoedd yn cael eu cynllunio a'u gweithredu. Ei nod yw gwella gwasanaethau trwy gynnig cefnogaeth sy'n diwallu anghenion penodol teuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion mewn teuluoedd, a thrwy gydgysylltu'r sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd fel bod teuluoedd yn derbyn cymorth cydgysylltiedig. Y bwriad

---

[29] Mae'r disgrifiadau canlynol o'r polisïau / rhaglenni allweddol Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth hon yn seiliedig ar eu sefyllfa yn ystod y gwaith maes ac efallai nad ydynt yn adlewyrchu tirwedd polisi dilynol.

[30] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Gwerthusiad Ansoddol o Dechrau'n Deg*.

[31] Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (2021) https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-o-ganlyniadau-dechraun-deg-gan-ddefnyddio-data-sydd-wediu-cysylltu-gofal-plant-ac-asesiadau-sylfaenol-y-cyfnod-sylfaen-html#content Llywodraeth Cymru.

yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd – yn enwedig teuluoedd sy'n byw mewn tlodi – gyda'r nod o rwystro problemau rhag gwaethygu'[32].

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys pum prif elfen, gan gynnwys Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) i ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o anghenion teuluoedd, dull Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar gyfer gweithio gyda theuluoedd, dull strategol o gomisiynu gwasanaethau cymorth i deuluoedd, a darpariaeth benodol ar gyfer teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys elfen dysgu gweithredol, er mwyn sicrhau bod dysgu lleol yn cael ei rannu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Un o brif egwyddorion y rhaglen yw y dylai gwasanaethau lleol gael eu comisiynu a'u cynllunio ar sail asesiad o anghenion lleol.' Mae'r gwerthusiad Blwyddyn 3 hwn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn adrodd bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn effeithiol wrth ysgogi ailgynllunio systemau ac roedd rhanddeiliaid cenedlaethol yn amlygu sefydlu timau amlasiantaethol fel un o lwyddiannau mawr y rhaglen[33].

*Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar*

Rhaglen dreialu, amser-cyfyngedig, yw Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar mwy cydlynol ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigryw pob plentyn, ac sy'n ymestyn o'r cyfnod cyn geni at saith oed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar ffyrdd o symleiddio'r tirwedd presennol, a gweithredu system blynyddoedd cynnar wirioneddol integredig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dull strategol a gytunir yn lleol sy'n integreiddio gwasanaethau a darparu pecyn cysylltiedig o gymorth sydd o fudd i blant ac sy'n cefnogi rhieni a theuluoedd pan fyddont angen hynny.

Mae'r rhaglen wedi bod yn gweithio yn datblygu ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Lleol, sydd wedi ymuno â Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar fel braenarwyr, yn archwilio sut i weithredu'r elfennau allweddol ar gyfer blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan weithredu'r hyn a ddysgwyd o'r dulliau amasiantaethol a gyflawnwyd o dan raglenni presennol megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn gyntaf. Mae'r rhaglen yn cefnogi byrddau gwasanaethau lleol i ddod â'r bobl iawn at ei gilydd i hwyluso'r gwaith yn lleol ac yn rhanbarthol a phrofi a threialu gwahanol ffyrdd o ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy integredig a chysylltiedig yn eu hardaloedd.

Drwy'r pandemig, tarfwyd ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu treialu, fodd bynnag mewn ymateb i hyn fe wnaeth byrddau gwasanaethau lleol addasu gweithgarwch treialu a chanfuont ffyrdd arloesol o gyflwyno gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys addasu

---

[32] Llywodraeth Cymru (2015) Gwerthusiad cenedlaethol o Deuluoedd yn Gyntaf: adroddiad blwyddyn 3

[33] Llywodraeth Cymru (2015) Gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf

cyflwyno gwasanaethau o fod wyneb yn wyneb i fod yn rhai rhithiol lle bo'n addas, gan sicrhau y gellid parhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae'n werth nodi bod trafod rhwng partneriaid wedi gallu parhau ac mewn rhai achosion wedi bod yn fwy aml yn ystod y pandemig trwy ddefnyddio llwyfannau megis Microsoft Teams a Skype.

*Y Cyfnod Sylfaen*

Roedd cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed yng Nghymru o 2008 ymlaen yn arwydd o symud ymhellach oddi wrth y dulliau mwy ffurfiol o addysg nag a wnaed o'r blaen ar gyfer plant iau, gan ddarparu cwricwlwm a oedd yn addas yn ddatblygiadol ac yn seiliedig ar chwarae. Yr oedran statudol ar gyfer cychwyn ysgol yw pum mlwydd oed. Fodd bynnag, mae gan blant tair a phedair oed hawl i isafswm o 10 awr yr wythnos o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, ran amser, wedi ei ariannu[34].

Rhwng 2011-2014, cyflawnodd Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd werthusiad tair blynedd o'r Cyfnod Sylfaen a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad terfynol yn amlygu bod gan ysgolion sy'n gwneud defnydd helaethach o addysgegau'r Cyfnod Sylfaen lefelau uwch o weithgarwch a llesiant y sylwir arnynt mewn disgyblion wrth iddynt ddysgu, a bod mynychu ysgolion sy'n gwneud defnydd helaethach o addysgegau'r Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o gyrraedd Dangosydd y Cyfnod Sylfaen[35]. Digwyddodd archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen, a gyflawnwyd gan yr Athro Iram Siraj, hefyd rhwng misoedd Medi 2013 a Mawrth 2014.

Mae llawer o agweddau o ddull y Cyfnod Sylfaen wedi cael eu mabwysiadu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru newydd i'w weithredu o fis Medi 2022, gan gynnwys y dull o ddysgu gweithredol drwy brofiad.[36] Er na fydd y Cyfnod Sylfaen fel cyfnod o ddysgu yn bod mwyach yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae egwyddorion a dulliau addysgegol y Cyfnod Sylfaen wedi cael eu hadlewyrchu trwy'r cwricwlwm 3-16 newydd lle bo'n briodol gwneud hynny ac mae Llywodraeth Cymru, wrth ddefnyddio fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, wedi cyhoeddi cwricwlwm ar gyfer lleoliadau gofal plant nas cynhelir sy'n cyflwyno addysg gynnar i'w weithredu o fis Medi 2022[37].

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun **Parhad Dysgu** ym mis Mehefin 2021 a oedd yn cydnabod y bydd ar blant yn y blynyddoedd cynnar angen cymorth penodol ac addas wrth inni gychwyn dod allan o effaith y pandemig oherwydd yr effaith ar eu dysg a'u datblygiad. Mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysg a datblygiad blynyddoedd

---

[34] Meithrin y Cyfnod Sylfaen: Canllawiau i Rieni a Gofalwyr (llyw.cymru)
[35] Taylor et al., (2015) Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol
[36] Llywodraeth Cymru (2015) Fframwaith y Cyfnod Sylfaen
[37] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir – Hwb (llyw.cymru)

cynnar. Rhan o'r cynllun yw cefnogi dysgwyr drwy'r **rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau** a bydd yn cael ei gwerthuso. Yn ogystal â'r rhaglen hon, dyrannwyd £13m yn 2020-21 i'w dargedu'n benodol at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Bydd £10m o'r cyllid hwn yn cryfhau cymarebau ymarferydd-i-ddysgwr mewn ysgolion a chymorth addysgol a ddarperir gan awdurdodau lleol i leoliadau nas cynhelir a ariennir i gyflwyno addysg gynnar. Mae £3m wedi cael ei ddyrannu i gefnogi lleoliadau gofal plant nas cynhelir nas ariennir i gyflwyno addysg gynnar, ond sydd â chyfrifoldebau dysgu a datblygu yng ngofal eu plant o dan y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol**. Mae'r cyllid ychwangol hwn wedi cael ei weinyddu trwy'r Grant Gwella Addysg.

*Magu plant. Rhowch amser iddo*

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cymorth i rieni yng Nghymru, trwy gymorth uniongyrchol i weithwyr cymorth magu plant (buddsoddiad yn agweddau magu plant o Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, gweithio gyda cydlynwyr cymorth magu plant a chyhoeddi canllawiau ar gyfer Cymru gyfan i gydlynwyr magu plant), a thrwy ei hymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo.

Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd o'r enw Magu Plant. Rhowch amser iddo i gefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "Weithio i wneud cosbi corfforol plant a phobl ifanc yn annerbyniol trwy hyrwyddo dewisiadau eraill cadarnhaol". Nod yr ymgyrch oedd helpu cyflawni newid agwedd yn y cyhoedd yn gyffredinol at y ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu magu a'u disgyblu, trwy wneud cosbi corfforol yn annerbyniol a hyrwyddo dewisiadau eraill cadarnhaol.

Ers hynny, ac mewn dogfennau Rhaglenni Llywodraethu dilynol, mae nod parhaus wedi bod o wella a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fagu plant mewn modd cadarnhaol. Ar hyn o bryd, mae'r ymgyrch wedi ei hanelu at rieni plant 0 i 7 mlwydd oed, ond gan weithio law yn llaw â grwp tasg a gorffen i gefnogi gweithredu'r ddeddfwriaeth Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn 2022, mae estyniad yn cael ei gynllunio er mwyn sicrhau bod cymorth digonol i rieni/gofalwyr plant o bob oed o 0 i 18.

Mae ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo wedi parhau gydag amryw o ymgyrchoedd penodol, gyda'r fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2020 a oedd yn canolbwyntio ar dair thema magu plant; Ymddygiad plant, Rhowch amser iddynt; Eich cefnogi chi. Ar hyn o bryd mae diweddariadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo pob un o'r tair thema, gyda phwyslais penodol ar Reoli Ymddygiad Plant, i ategu'r ymgyrch i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r ddeddfwriaeth i wahardd cosbi plant yn gorfforol.

Yn ystod y pandemig, cyflawnwyd gwaith gyda gweithwyr cymorth magu plant mewn awdurdodau lleol i gydlynu'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae buddsoddiad wedi bod hefyd mewn cymorth i gydberthynas rhieni, a lleihau gwrthdaro rhwng dau riant,

gyda chynnydd yn lefel gwrthdaro teuluol yn cael ei ragweld yn sgil y pwysau a grewyd gan y pandemig.

*Rhaglen Plant Iach Cymru*

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn rhaglen iechyd gynhwysol i bob teulu sydd â phlant 0 i 7 oed; fe'i cyflwynwyd ar 1 Hydref 2016 a'i hymestyn allan i bob bwrdd iechyd yng Nghymru. Y disgwyl oedd y byddai pob bwrdd iechyd yn darparu'r trefniant newydd, cynhwysol o fonitro a chysylltiadau datblygiad plant yn llawn o fewn dwy flynedd. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys amrywiaeth gyson o fesurau ymyrraeth ataliol a chynnar, a'r rheini ar sail tystiolaeth, a chyngor a chanllawiau i gefnogi magu plant a dewisiadau iach o ran ffordd o fyw. Cafodd gwerthusiad interim y Rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar weithredu cynnar y rhaglen ledled Cymru ei gyhoeddi yn 2018. Diben yr astudiaeth ffurfiannol hon oedd archwilio problemau ynghylch gweithredu ac addasu i ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol gan y Rhaglen. Mae'r prif ganfyddiadau'n cynnwys: mae cysondeb arferion o ganlyniad i Raglen Plant Iach Cymru wedi cael ei groesawu gan ymarferwyr ledled Cymru; caiff yr amrywiol ddulliau a rhestrau gwirio sydd ar waith eu croesawu ar y cyfan ac fe'u defnyddir i gefnogi arferion cyson, er bod potensial i wella[38].

*Y Gronfa Datblygiad Plant*

Cyflwynwyd y Gronfa Datblygiad Plant (£3.5m yn 2020/21) ym mis Hydref 2020 i gefnogi plant o dan 5 y gall fod effaith niweidiol wedi bod ar eu datblygiad o ganlyniad i gyfyngiadau iechyd cyhoeddus COVID-19. Dyfarnwyd £3.5 miliwn pellach am 6 mis hyd at fis Hydref 2021 a 4.5 miliwn ychwanegol at fis Ebrill 2022. Bydd hyn yn darparu cyllid i bob awdurdod lleol yng Nghymru i'w galluogi i ymdrin â phryderon ynghylch oedi datblygiadol yn sgil cyfyngiadau iechyd cyhoeddus o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 gan gynnwys oedi mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu; oedi gyda sgiliau echddygol manwl a bras; a datblygiad personol a chymdeithasol. Bydd y pwyslais ar hybu ymyrryd cynnar i ymdrin ag anghenion cyn gynted â phosibl yn hytrach na chaniatáu i broblemau waethygu at bwynt o argyfwng neu bwynt lle nad oes dychwelyd. Bydd y dull hwn yn mynd ran o'r ffordd at gefnogi'r plant iau i ddatblygu cydnerthedd yn ogystal â chaffael y sgiliau bywyd allweddol y bydd arnynt eu hangen i gael y dechrau gorau mewn bywyd i'w galluogi i gyflawni eu potensial[39].

*Siarad Gyda Fi: Cynllun cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (2020-2021)*

Cydnabyddir yn helaeth fod datblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys plant yn caffael sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a llafaredd sy'n gosod sail i gallu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu a datrys problemau. Gall fod ar unrhyw blentyn, waeth lle mae'n byw neu beth bynnag fo'i amgylchiadau teuluol, angen cymorth ychwanegol i

---

[38] Llywodraeth Cymru (2018) Gwerthusiad Rhaglen Plant Iach Cymru: adroddiad interim LLYW.CYMRU
[39] Datganiad Ysgrifenedig: Ymestyn y Gronfa Datblygiad Plant (24 Mawrth 2021) LLYW.CYMRU

ymdrin ag oedi neu anawsterau gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod plant ledled Cymru yn cael cyfle am gymorth cynhwysol, poblogaeth, penodol ac arbenigol o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar, os yw'n ofynnol, i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae cofleidio Cymru fel gwlad ddwyieithog yn bwysig ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r dechrau gorau bosibl i bob plentyn ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymraeg yn ogystal â Saesneg yn unol â'r weledigaeth a nodir yn Cymraeg 2050. Mae'r cynllun cyflawni yn ceisio ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu[40].

*Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod*

Mae mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae datblygiad parhaus polisi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi cael ei arwain gan ail astudiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru (2017) ac amrywiaeth o adroddiadau eraill yn edrych ar agweddau penodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd adolygiad o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a oedd yn archwilio sut mae'r polisi ar y mater wedi perfformio a sut y gellir ei ddatblygu yn y dyfodol. Roedd dau gam i'r adolygiad, gyda cham 1 yn cynnwys adolygiad desg o lenyddiaeth a cham 2 yn cynnwys trafodaethau â rhanddeiliaid allanol. Gall rhai o'r prif ganfyddiadau o adroddiad cam 1 – gweithredu i rwystro Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a lliniaru eu heffaith – gael buddion sylweddol i unigolion, eu teuluoedd, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol. Yn ogystal, gall gweithredu helpu i leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto pa effaith mae polisi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi ei gael ar wella canlyniadau a pha weithredoedd a chymorth a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Adrodda canfyddiadau o gam 2 fod, yn gyffredinol, gryn dipyn o gefnogaeth dros fabwysiadu fframwaith/cyfeiriad Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru. Dywed rhanddeiliaid hefyd fod cael sail gref o dystiolaeth yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol, fel roedd yr angen i barhau i gasglu tystiolaeth. Er y cydnabuwyd bod ymchwil ar raddfa fawr yn ddrud, amlygwyd y diffyg presennol o werthusiadau/data monitro trwyadl o ansawdd dda o'r rhaglenni, prosiectau neu gynlluniau peilot sy'n digwydd ledled Cymru[41].

*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Y Ddeddf)*

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n disodli'r ddeddfwriaeth

[40] Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu | LLYW.CYMRU
[41] Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad | LLYW.CYMRU

bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae'n parhau bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae defnyddio ADY fel term unigol sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc o 0 i 25 oed yn adlewyrchu'r symudiad at system decach o gefnogi dysgwyr sydd ag ADY mewn lleoliadau blynydoedd cynnar, ysgolion ac addysg bellach. Bydd system ddeddfwriaethol unigol yn ymwneud â'r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag ADY. Bydd y Ddeddf yn sicrhau mwy o gysondeb a pharhad ac, yn wahanol i'r system bresennol, yn sicrhau bod darpariaeth a hawliau yn cael eu diogelu waeth beth fo difrifoldeb na chymhlethdod yr anghenion. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol y dylai barn plant, eu rhieni a phobl ifanc gael ei ystyried bob amser fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â barn eu rhieni. Mae'n hanfodol fod plant a phobl ifanc yn gweld y broses gynllunio fel rhywbeth sy'n cael ei gwneud 'gyda nhw' yn hytrach nag 'iddyn nhw'. Bydd y system newydd yn cefnogi pwyslais cryf ar gydweithio. Bydd pob gwasanaeth sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, â rhan allweddol i'w chwarae mewn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth effeithlon, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, i ddysgwyr sydd ag ADY[42].

*Cwricwlwm i Gymru*

Cafodd canllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru[43] eu cyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2020. Eu nod yw helpu pob ysgol yng Nghymru i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm – y man cychwyn a'r dyhead i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae'n berthnasol hefyd i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol mewn lleoliadau eraill, gan eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o Fframwaith y Cwricwlwmi Gymru.

Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ganllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 71 o Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) ac o'r herwydd y gynulleidfa darged yw:

- prifathro ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwyr lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion

[42] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): memorandwm esboniadol | LLYW.CYMRU
[43] Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru – Hwb (llyw.cymru)

- rhywun sy’n darparu dysgu ac addysgu i ddysgwr heblaw mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wnaed o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (c 56)
- awdurdod lleol yng Nghymru.

Gan fod y Fframwaith yn ganllawiau statudol rhaid i’r gynulleidfa darged roi ystyriaeth iddo wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Mae’r canllawiau’n helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae’n cynnwys gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol, canllawiau ar sut i ddatblygu cwricwlwm ysgol, ac esboniad o ddibenion ac egwyddorion asesu.

Diben cwricwlwm pob ysgol a phob lleoliad yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Atodiad B – Canllaw pwnc Cam 1 gydag academyddion**

| 1 | Cyflwyniad | | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | 1a | A allwch ddweud ychydig wrthym amdanoch chi eich hun a'ch maes(au) arbenigedd/ymchwil (daearyddol a sectorol)? | |
| **2** | **Effeithiau'r pandemig** | | |
| | 2a | Yn fyr, beth ydych chi'n ei weld fel **prif effeithiau'r pandemig** ar blant ifanc (hyd at 7 mlwydd oed) a'u teuluoedd?<br>a) Datblygu a sgiliau: emosiynol, corfforol, iaith a dysgu<br>b) Cyd-destun, tlodi, anfantais, gwledigrwydd<br>c) oedran (carfannau o blant) | |
| | 2b | Sut fydd y dirwedd/ heriau/ **blaenoriaethau yn edrych yn wahanol** i deuluoedd â phlant ifanc ar ôl y bandemig Covid? | |
| | 2c | Canfyddiad cyffredin yw bod y pandemig wedi gwaethygu'r patrymau angen presennol. A oes unrhyw **anghenion newydd** wedi codi i blant ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru ar rhan y pandemig? Pa dystiolaeth sydd ar gael o hyn? | |
| | 2d | Ydy'r **effeithiau yng Nghymru** yn wahanol i lleodd arall?<br>• Hynny yw, beth ddylai llunwyr polisi gadw mewn cof am y cyd-destun Cymreig y byddai angen ei ystyried wrth gymryd dysg polisi o wledydd eraill? | |
| | 2e | I ba raddau oedd yr effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn **priodoladwy i'r amhariad ar fynediad at, ac argaeledd wasanaethau arferol** ar gyfer plant a theuluoedd?<br>• A ydych chi'n credu y byddai'r effeithiau hyn wedi bod yn bosibl eu hosgoi pe bai'r cymorth a'r ymyriadau arferol wedi bod ar gael yn ystod y pandemig? *[h.y. archwilio pa mor bell oedd effeithiau negyddol yn uniongyrchol o ganlyniad i'r pandemig - e.e. salwch rhieni/straen* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *ariannol/cam-drin domestig ac ati - neu ganlyniad gostyngiad mewn gwasanaethau (a achoswyd yn anuniongyrchol gan y pandemig)]*<br>• Canfu ICC fod ysgolion yn cau ac aflonyddwch addysgol yn gyfrifol am lawer o bryder plant yn ystod y pandemig. **Pa mor ddibynnol yw polisi BC Cymru ar allu plant i fynychu lleoliadau ysgol/gofal plant?** A oes angen naill ai gwella cefnogaeth yn yr ysgol/lleoliad neu symud i ffwrdd o'r "canoli" hwn? | |
| | 2f | A oes unrhyw **rwystrau** sy'n wynebu plant a theuluoedd (naill ai'n hen neu sydd wedi codi oherwydd y pandemig) **sy'n mynd heb sylw** gan bolisi presennol Cymru? | |
| **3** | **Addasrwydd a Pherthnasedd Polisi** | | |
| | | *Mae'r canlynol yn gwestiynau cyffredinol am berthnasedd polisi BG. Ychwanegwch rai cwestiynau sy'n ymwneud â'r pwnc GF (mewn tablau isod) neu gyflwyno rhai polisïau allweddol y gall academyddion ddewis cyfeirio atynt wrth ymateb.* | |
| | 3a | Gan edrych ymlaen at ddyfodol ar ôl y pandemig, i ba raddau y mae'r mecanweithiau cyflenwi presennol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth BG yng Nghymru yn dal i fod yn briodol?<br>• A yw'r **cyd-destun cymdeithasol/diwylliannol yn wahanol iawn** nawr?<br>• I ba raddau mae hyn yn amrywio yn ôl daearyddiaeth, oedran y plentyn, grwpiau economaidd-gymdeithasol? | |
| | 3b | Beth sydd wedi **gweithio'n dda** (polisïau, rhaglenni, dulliau) yng Nghymru ers i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020 o ran cefnogaeth i blant a'u teuluoedd?<br>• [Os yw'n berthnasol] Ble mae'r manteision/cryfderau hyn wedi'u harsylwi?<br>• I ba raddau y maent wedi bod yn gyffredinol i blant yng Nghymru? *Rhesymau dros unrhyw wahaniaethau.* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • **Pa bolisïau a rhaglenni sydd fwyaf perthnasol** yn edrych ymlaen at ddyfodol ar ôl y pandemig? | |
| | 3c | A oes unrhyw **bolisïau neu raglenni** BG (neu rannau o'r polisïau/rhaglenni hynny) yn **dod yn amherthnasol/wedi darfod/anaddas** ar gyfer dyfodol ar ôl y pandemig? | |
| | 3d | I ba raddau y mae polisïau ac ymyriadau presennol BG Cymru yn mynd i'r afael â phob un o'r pum **llwybr datblygiadol** (perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, lles)? | |
| | 3e | A oes unrhyw **fylchau** yng nghefno/arweiniad / darpariaeth polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer BG a gododd o ganlyniad i'r pandemig? | |
| **4** | **Argymhellion** | | |
| | 4a | Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei **flaenoriaethu** ym mholisi'r blynyddoedd cynnar wrth symud ymlaen?<br>• Pa raglenni sydd fwyaf defnyddiol?<br>• **Pwy** ddylai ddarparu ymyriadau (LIC, ALleol, lleoliadau BG, byrddau iechyd, ac ati, a darpariaeth gartref neu leoliad ysgol/gofal plant, ac ati)? | |
| | 4b | Yng ngoleuni effeithiau'r pandemig, sut ddylai LIC ystyried **targedu** rhaglenni a pholisïau? Sut dylai llunwyr polisi ystyried y cydbwysedd rhwng cyfyngiadau effeithlonrwydd / adnoddau a'r risg o eithrio teuluoedd mewn angen?<br>• *Holi yn seiliedig ar ehangu rhai rhaglenni (e.e. Dechrau'n Deg) a dulliau cyffredinol blaengar gyda chefnogaeth gyffredinol graidd a lefelau gwahanol o ddarpariaeth ddwys (e.e. Plant Iach Cymru).* | |
| | 4c | Beth ddylai LIC ei flaenoriaethu o ran "**babanod pandemig**" (h.y., y plant ieuengaf) wrth symud ymlaen?<br>1. A ddylai'r garfan hon o blant gael cymorth ychwanegol? | |

| | | | |
|---|---|---|---|
